RHIF YR EITEM AR Y RHAGLEN

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **CYFARFOD BWRDD Y COMISIYNWYR** |
| **DYDDIAD** | **25 GORFFENNAF 2011** |
| **PWNC** | **ADRODDIAD CYLLIDEB GORFFENNAF** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO** | **COMISIYNYDD BYRON DAVIES** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **DAVID ELIS- WILLIAMS** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **DAVID ELIS-WILLIAMS** |

**1. Cadarnhewch natur yr adroddiad os gwelwch yn dda trwy glicio un o'r blychau isod**

Er gwybodaeth……….. ☐

Gweithredol………...... ☐

Strategol………………. ☒

**2. Rheswm/Rhesymau pam fod angen penderfyniad gan y Comisiynwyr**

Darparwyd yr adroddiad yma i sefydlu'r fframwaith strategaeth cyllidol i'r Cyngor wrth ddarparu'r cyllidebau refeniw a cyfalaf 2012/13. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r pwysau cyllidol sy'n gwynebu'r Cyngor yn awr ac yn y tymor canol ac mae'n gosod amserlen i'r broses gosod cyllideb fydd yn gysylltiedig i'r broses Cynllunio Corfforaethol y Cyngor, sydd hefyd yn cael ei ystyried gan y cyfarfod Comisiynwyr heddiw. Mae'r Comisiymwyr wedi dynod eu bwriad i sefydlu triniaeth mwy integredig tuag at cynllunio a chyllido corfforaethol ac mae'r adroddiad yma'n cefnogi'r safbwynt yna.

**3. Crynodeb o'r adroddiad**

Argymell newidiadau i'r broses gosod cyllideb i'w wneud yn fwy cynhwysol.
Argymell newidiadau i'r cyfansoddiad i hwyluso hyn.
Diweddaru'r rhagolwg cyllidol.
Argymell dylid mabwysiadu "Cynllun Cyllideb y Comisiynwyr".

**4. Argymhelliad/Argymhellion a'r rhesymau**

(fel rhan 9)

**5. Opsiynau eraill a'r rheswm/rhesymau dros eu gwrthod**

Nid yw'r newidiadau i'r broses gosod cyllideb na'r cyfansoddiad yn angenrheidiol, ond petaent ddim yn cael eu mabwysiadu byddai hyn yn rhwystro'r cynnydd ar cyllidebu cynhwysol. Ystyriwyd mabwysiadu targedau canran yn unig (hefo dim RhBFf) ond gwrthodwyd gan ei fod yn rhy tymor-byr ac yn seiliedig ar seilo.

**6. Ymgynghori**

6.1 Cyllid/Adran 151…….............................. ☐ do………☐ naddo

6.2 Swyddog Cyfreithiol/Monitro…………..... ☒ do………☐ naddo

6.3 Adnoddau Dynol………….......................... ☒ do………☐ naddo……☐ amherth

6.4 Gwasanaethau Eiddo…………………...... ☐ do………☒ naddo……☐ amherth

6.5 Uned Gyfathrebu……............................... ☐ do………☒ naddo

6.6 Rhai eraill yr ymgynghorwyd â nhw (yn cynnwys aelodau):

**7. Unrhyw faterion Fframwaith Polisi**

Mae'r cynigion yn cymryd ystyriaeth o Strategaeth Cyllideb a Fframwaith Cyllideb ac mae'n caniatau'r angen i'r Comisiynwyr ddiweddaru neu diwygio rhain.

**8. Materion Amgylcheddol**

A yw'r mater / eitem yn ymwneud â:

1. Bywyd gwyllt (bioamrywiaeth) o dan
Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol …………☐ do……. ☒ naddo ….☐ amherth
a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006*

2. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
(AHNE) Ynys Môn o dan Rhan 85 o'r Deddf ……..☐ do…….☒ naddo …. ☐ amherth
Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000**

(*Gall Gynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol roi cyngor: est. 2470)
(**Gall Swyddog Cefn Gwlad ac AHNE roi cyngor: est. 2429)
Nodiadau

**9. Papurau cefndirol**

## 1. FFRAMWAITH A STRATEGAETH GYLLIDEBOL

**1.1** Cafodd Cynllun Corfforaethol cyfredol y Cyngor ei sefydlu gan y Cyngor ym mis Mai 2011 ac mae'n ymwneud â'r cyfnod 2011-12 yn unig. Dylai'r Cynllun Corfforaethol gyd-redeg â'r cyfnod Ariannol Tymor Canol ar o'r herwydd, bydd y Comisiynwyr yn datblygu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-15 i gyd-redeg â'r amserlenni ariannol fydd wedi'u cynnwys yn y broses gyllidebol. Bydd datblygu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-15 hefyd yn sicrhau ei fod yn cael ei arwain gan bolisi a'i gefnogi gan gynlluniau busnes corfforaethol a chynlluniau busnes gwasanaethau a fydd yn canolbwyntio ar 2012-13 fel blwyddyn gyntaf Cynllun Corfforaethol tair blynedd. Bydd y Cynllun Corfforaethol , yr un modd â'r broses gyllidebol, yn treiglo ymlaen bob blwyddyn.

**1.2** Rhaid i gyllidebau adlewyrchu cynlluniau bob amser, a rhaid i gynlluniau gymryd i ystyriaeth yr hyn y gellir ei fforddio bob amser. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r cynlluniau ariannol gefnogi fframwaith cynllunio'r awdurdod a bod rhaid i'r cyllidebau, wedi iddynt gael eu mabwysiadu, osod terfyn uchaf ar yr hyn y gall yr awdurdod ei wario. Wrth i'r awdurdod symud i gynllun corfforaethol sy'n seiliedig ar dair blynedd yn hytrach na blwyddyn yn unig, bydd raid sicrhau cysondeb y cynllun ariannol a sicrhau, yn wir, bod y ddau yn cael eu datblygu ochr yn ochr.

**1.3** Mae Atodiad 1 yn cynnwys y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol hyd at 2013-14 a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ym Mawrth 2011. O fewn y strategaeth hon, rhoddir disgresiwn eang i'r swyddogaeth Weithredol reoli'r gyllideb flynyddol; ond serch hynny rhaid dilyn y fframwaith a'r strategaeth gyllidebol a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn.

**1.4** Datblygwyd y Strategaeth gyfredol dros y tair blynedd diwethaf, gyda fframwaith cyffredinol sy'n gwrthod yr arfer o wneud toriadau tameidiog i gyllidebau gwasanaeth ac, yn lle hynny, sy'n cyflwyno dull mwy corfforaethol. Adlewyrchir hyn yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy, rhaglen o brosiectau sy'n sicrhau arbedion dros y tymor canol ac sydd wedi'u grwpio dan themâu cyffredinol yn hytrach na fesul gwasanaeth. Mae'r rhestr yn cynnwys prosiectau thematig y disgwylir iddynt sicrhau arbedion dros ragor nag un gwasanaeth ac sydd â thargedau nad oes modd bob amser eu torri i lawr gan y gwasanaeth ymlaen llaw.

**1.5** Yn Atodiad 2 rhestrir y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy fel yr oedd ar adeg mabwysiadu cyllideb 2011-12. Bydd angen diweddaru'r manylion hyn wrth i'r broses gyllidebol fynd yn ei blaen.

**1.6** Wrth i ni gychwyn datblygu cynlluniau cyllidebol ar gyfer 2012-13, y man cychwyn ar gyfer gwneud hynny yw'r strategaeth gyfredol a'r rhagdybiaethau sydd ynddi ar gyfer y flwyddyn honno. Serch hynny, mae disgwyl hefyd:-

- bod y cynlluniau ar gyfer 2012-13 yn cael eu diweddaru gan gymryd i ystyriaeth ffeithiau a ffigyrau newydd;
- bydd y strategaeth tymor canol yn cael ei threiglo ymlaen i 2014-15;
- o ganlyniad i'r uchod, bydd y Pwyllgor Gwaith, ym Mawrth 2012, yn cynnig strategaeth tymor canol diwygiedig ar gyfer y Cyngor;
- bydd y strategaeth ddiwygiedig yn adlewyrchu'r cynllun corfforaethol newydd a chynlluniau gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig eraill sydd wedi datblygu yn y cyfamser.

**1.7** Ar yr adeg hon, mae'n arferol i'r Pwyllgor Gwaith gadarnhau y bydd ei gynigion cyllidebol yn cael eu harwain gan y strategaeth tymor canol. Mae hynny'n cynnwys gwaith diweddaru syml a threiglo ymlaen, ond mae'n bosib hefyd wrth gwrs y bydd y Pwyllgor Gwaith efallai yn dymuno bwrw ymlaen mewn ffordd nad yw'n gyson gyda'r strategaeth a gwneud newidiadau sylweddol iddi. Wrth i'r Comisiynwyr ymgymryd â'r swyddogaeth hon, mae'n briodol egluro a fyddant yn cael eu harwain ganddi, neu a ydynt yn cynnig gwyro oddi wrthi mewn modd amlwg.

**1.8** Mae'r adroddiad yn dychwelyd i'r thema datblygu strategaeth yn rhan 7, ond gwahoddir y Comisiynwyr i ystyried eu safbwynt mewn perthynas â'r strategaeth gyfredol a'i pharhad.

## 2. YR AMGYLCHEDD ARIANNOL

**2.1** Ysgrifennwyd y strategaeth gyllidebol hon yng nghyd-destun y cyfyngiadau ariannol parhaus yn seiliedig ar y gyllideb a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2011 am y cyfnod 2013-14. Cadarnhawyd y cyd-destun hwn fel rhan o gyhoeddiad cyllidebol y Canghellor ym Mawrth 2011. Dyma oedd rhai o'r prif ddangosyddion o'r datganiad hwn:

- Y rhagolygon twf ar gyfer 2012 wedi mynd i lawr o 2.6% i 2.5%.
- Disgwylir i chwyddiant aros rhwng 4% a 5%.
- Rhagolygir y bydd y ddyled genedlaethol yn 60% o'r incwm cenedlaethol yn 2011.
- Y ddyled genedlaethol yn codi i 71% o'r incwm cenedlaethol yn 2012.

**2.2** Yn ôl dangosyddion cyfredol, bydd proses gyllidebol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012/13 yn ceisio rhoi diweddariad ar y pwysau a'r risgiau allweddol sy'n wynebu LlC a llywodraeth leol. Yn ychwanegol at hyn, bydd yn ystyried y datrysiadau a'r sgôp ar gyfer arbedion a nodwyd yn wyneb yr Adolygiad Gwario Cynhwysfawr a chanlyniadau chyllideb LlC. Daw'r manylion hyn yn gliriach ar adeg cyflwyno cyllideb ddrafft LlC (a ddisgwylir yn gynnar ym mis Hydref), ac ar adeg cyhoeddi'r setliad dros dro i lywodraeth leol (a ddisgwylir bythefnos yn ddiweddarach). Bydd y manylion yn gadarnach yng nghyllideb derfynol LlC (diwedd Tachwedd) a'r setliad terfynol i lywodraeth leol (mis Rhagfyr).

**2.3** Rhydd cyllid LlC ffigyrau ar gyfer cyfanswm y bloc cyllido i lywodraeth leol tan 2013-14. Cyfarfu rhwydwaith aelodau Cabinet Cyllid CLlLC gyda'r Gweinidog ar gyfer Cyllid a Busnes a'r Gweinidog ar gyfer Cymunedau a Llywodraeth Leol ar 22 Mehefin. Yn y cyfarfod hwnnw, awgrymwyd nad oedd gan Lywodraeth Cymru lawer o sgôp i newid ei chynlluniau cyllidebol ac roedd yr arwyddion hyn yn dal i fod yn ddilys. Cawsant eu dehongli fel newyddion cymharol dda oherwydd y bu pryderon ynghylch toriadau pellach.

**2.4** Nid oes ffigwr ar gael ar gyfer y setliad i lywodraeth leol yn 2014-15, y flwyddyn a ychwanegir at y strategaeth wrth iddi dreiglo ymlaen, ac nid oes disgwyl un yn yr hydref. Fodd bynnag, roedd Adolygiad Gwario Cynhwysfawr 2010 Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn cynnwys ffigyrau hyd at 2014-15 ar gyfer bloc Cymru a'r rhagdybiaeth niwtral yw rhagdybio'r un ffigwr ar gyfer y bloc Llywodraeth Leol yng Nghymru â'r ffigwr Departmental Expenditure Limit ar gyfer adnoddau Cymru gyfan, sef dim newid.

**2.5** O fewn y bloc cyfan i lywodraeth leol, mae mater neilltuo cyllid i awdurdodau unigol. Ar adeg cyhoeddi setliad 2011-12, rhoddwyd ffigyrau arwyddol ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Dyma'r ffigyrau a ddefnyddiwyd yn Atodiad 1 ar gyfer y Cyllid Trysorlys Cyfun, cyfanswm y Grant Cymorth Refeniw a'r Trethi Annomestig a ail-ddosbarthwyd. Yn arwyddocaol, maent yn dangos bod y Cyllid Trysorlys Cyfun ar gyfer Ynys Môn yn syrthio 0.4% mewn termau ariannol yn 2012-13 tra bod y cyfanswm ar gyfer Cymru ar gynnydd.

**2.6** Mae peryg y bydd y ffigyrau hyn yn newid yn sgil:-

- Newidiadau posibl i'r fformiwla a'r data o ran y fformiwla gyllido;
- Effaith unrhyw grantiau penodol eraill a drosglwyddir i'r setliad;
- Newidiadau yn y cwantwm o grantiau penodol;
- Y rhaglen ar gyfer newidiadau o ran cydweithio ar wasanaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mae ffigyrau PLASC dros dro sydd i'w defnyddio yn setliad 2012-13 yn awgrymu bod y gostyngiad yn nifer y disgyblion yn ysgolion Môn yn arwain at Gyllid Trysorlys cyfun is yn 2012-13 na'r ffigyrau arwyddol - gostyngiad ariannol o 0.8%.

**2.7** Rhaid i waith cynllunio hefyd gadw grantiau penodol mewn cof - rhai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhagdybiaethau strategaeth. Y polisi sy'n cael ei arddel gan CLILC yw pwyso am i'r rhain gael eu cynnwys yn y setliad sydd heb ei neilltuo a, phan fo hyn yn digwydd gyda grantiau unigol, yr hyn y byddwn yn ei wneud fel arfer yw adlewyrchu'r trosglwyddiad yn y cyllidebau lleol mewn modd niwtral. Yn 2011, roedd pryderon ynghylch toriadau mwy sylweddol (yn hytrach na throsglwyddiadau) mewn grantiau penodol, ac er bod rhai o'r pryderon hynny wedi'u gwireddu, nid oedd y darlun cyffredinol cynddrwg ag y gallai fod wedi bod. Mae hyn yn parhau yn risg ar gyfer 2012. Lle mae grantiau gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cwtogi, rhaid i'r rhagdybiaethau ar gyfer cynllunio'r gyllideb gymryd y bydd y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hwy yn dod i ben, er bod hyn yn fygythiad i gyflogaeth ac i ychydig o wasanaethau sy'n cael eu hystyried fel rhai 'craidd'. Y broblem yw bod y grantiau hyn yn cael eu cyhoeddi yn dameidiog gan adrannau gwario gwahanol yn Llywodraeth Cymru a gall bod yn anodd cael darlun cyffredinol.

**2.8** Mae'r cyfeiriad teithio ar gyfer y Dreth Gyngor yn rhan allweddol o'r strategaeth tymor hwy, er y bydd cyllidebau blynyddol yn cael eu penderfynu i raddau helaethach gan lefel y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na phenderfyniadau ymylol ar y Dreth Gyngor. Mae'r strategaeth yn caniatáu ar gyfer twf o 5% yn yr incwm o'r Dreth Gyngor (gan gynnwys twf yn y sylfaen dreth) ond, yn ymarferol, mae'r pryderon ynghylch pa mor fforddiadwy yw hyn i drethdalwyr sydd eisoes dan bwysau, wedi arwain at godiadau canrannol is. Bu cynnydd o 3.7% yn y gyfradd Band D yn Ynys Môn yn 2011-12 o gymharu â chynnydd o 2.9% trwy Gymru ar gyfartaledd, sef yr isaf erioed. Wrth gymharu'r lefelau Dreth Gyngor, unwaith eto, Ynys Môn yw'r pedwerydd isaf yng Nghymru ac mae'r Dreth Gyngor yma yn is na bron i bob un o'r awdurdodau yn Lloegr. Y cwestiwn ar gyfer y strategaeth tymor hwy ydi a yw Ynys Môn yn dymuno parhau i fod yn awdurdod treth isel neu a yw'n dymuno dal i fyny gydag awdurdodau lleol eraill er mwyn gwella gwasanaethau a gostwng y risg o fethiant. Yn answyddogol, gosodwyd terfyn o 5% yng Nghymru i adlewyrchu beth fyddai'n gynnydd derbyniol, er fel sydd wedi'i nodi uchod, mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn ddiweddar wedi bod yn llawer is na hynny. Yn y blynyddoedd diwethaf, ystyriwyd bod 5% yn ffigwr sy'n uwch na chwyddiant ond oherwydd bod chwyddiant bellach yn agos i 5%, nid oes modd dweud hynny bellach.

**2.9** Rhagwelir y bydd gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliad meintiol, fel yn 2011-12, ynghylch yr hyn fydd yn digwydd i gyllidebau ysgol. Mae hyn yn codi o'r addewid a wnaeth y Gweinidog Cyntaf yn ei ymgyrch am arweinyddiaeth y Blaid Lafur yng Nghymru y byddai'r cyllidebau addysg yn gwneud 1% yn well fesul blwyddyn na'r bloc ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn cyfateb i newid ariannol disgwyliedig o :-

| | |
|---|---|
| 2012-13 | +1.58% |
| 2013-14 | +2.08% |

(Gellir addasu'r ganran ymhellach i adlewyrchu newidiadau yn nifer y disgyblion).

Mae pennu hwn fel ffigwr mewnbwn mympwyol, waeth beth fydd yn digwydd i gostau, yn hytrach na fel targed sy'n seiliedig ar allbwn neu ganlyniad, yn gyfyngiad eithaf mympwyol. Fodd bynnag, mae'n rhaid ei gydnabod fel disgwyliad ac nid gorchymyn. Yng nghyllideb 2011-12, roedd disgwyliad tebyg mewn perthynas â chyllidebau gofal cymdeithasol ond nid oeddynt yn cael eu monitro mor agos. Nid oes disgwyl y bydd hyn yn cael ei ail-adrodd yn y blynyddoedd diweddarach.

**2.10** Un o'r risgiau mwyaf sy'n codi o'r amgylchedd ariannol allanol yw'r risg o chwyddiant. Yn y flwyddyn gyfredol rydym eisoes yn ymwybodol o bwysau sy'n codi yn arbennig yn sgil prisiau ynni, prisiau tanwydd a phrisiau bwyd. Rydym wedi gwneud darpariaeth ar gyfer chwyddiant tybiedig yn y gyllideb ar gyfer eleni, ond ni ellir bod yn sicr bydd y ddarpariaeth hon yn ddigonol hyd yn oed yn 2011-12. Mae CLlLC yn yr adroddiad gan yr Is-Grŵp Gwariant sy'n edrych ymlaen i 2012, yn cyfeirio at gyfradd dadchwyddo GDP o 2.2%. Fodd bynnag, mae cyfraddau chwyddiant CPI a RPI bellach o gwmpas 5% ac mae rhai sylwebwyr yn credu y bydd hyn yn parhau.

**2.11** Os bydd chwyddiant prisiau'n codi'n sylweddol, efallai y daw'n fwyfwy anodd i gyflogwyr sector cyhoeddus fynnu ar rewi cyflogau yn y sector cyhoeddus. Er y bydd cyflogwyr efallai yn cymryd safiad y dylid rhewi cyflogau eto yn 2012, efallai y bydd raid cymryd safiad mwy realistig i bwrpas cynllunio ariannol fel sy'n sail ar gyfer Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol Mawrth 2011.

**2.12** Mewn adroddiadau blaenorol ar y gyllideb, awgrymais fod peth lliniaru rhwng cyfraddau chwyddiant a chyfraddau llog - yn yr un modd ac aeth y ddau i lawr gyda'i gilydd yn 2009, roedd disgwyl, pe bai chwyddiant yn codi, y byddai cynnydd mewn llog a enillir yn lliniaru rhywfaint ar y sefyllfa. Nid yw safiad Banc Lloegr hyd yma wedi adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, mae disgwyl y bydd cyfraddau llog yn codi a byddwn yn parhau i adlewyrchu hyn yn y strategaeth ariannol tymor canol fel yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

**2.13** Mae costau cynyddol pensiynau wedi'u cyfyngu i raddau helaeth fel risg i'r gyllideb. Mae'r newid o fynegeio RPI i CPI yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi bod o gymorth (er bod hynny wedi bod o anfantais i aelodau o'r cynllun) ac mae Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y gallwn ddisgwyl cynnydd graddol mewn cyfraddau cyfrannu ond wedi'i gyfyngu i 0.5% o'r cyflogau bob blwyddyn. Mae cyfraddau cyfraniad pensiwn y cyflogwr ar gyfer athrawon yn sefydlog ond bydd angen parhau i fonitro'r sefyllfa hon. Efallai y bydd newidiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus yn lliniaru ymhellach y pwysau hyn ar y pwrs cyhoeddus ond ni fydd hynny'n digwydd yn ddigon buan i gael effaith ar y rhagdybiaethau cynllunio cyfredol.

**2.14** Risg arall i gyllidebau o'r amgylchedd allanol yn ystod y broses cynllunio ariannol yw'r risg sy'n codi o gynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ar gyfer 'Credyd Cyffredinol', gostyngiadau i fudd-daliadau cyn cyflwyno Credyd Cyffredinol a'r bwriad i leoleiddio budd-dal y Dreth Gyngor o 2013. Ychydig sy'n sicr ynghylch y newidiadau hyn, ond gallai'r effaith andwyol ar hawlwyr gynyddu'r pwysau ar gyllideb y Cyngor hefyd.

## 3. CYLLIDEBU CYNHWYSOL

**3.1** Mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd proses Cynllun Corfforaethol 2012/15 yn cael ei pharatoi ar sail dull cynhwysol a chan integreiddio'r Strategaeth Cyllideb Ariannol yn y broses gyffredinol. Bydd y Cyngor hefyd yn ymgysylltu'n llawn gyda chydranddeiliaid allanol a dinasyddion a chymunedau wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol fel y bydd pwyslais polisi ar broses gyllidebol 2012/13 a'r cynllun ariannol tymor canol.

**3.2** Mae'r rhaglen drawsnewid i gryfhau Llywodraethu Corfforaethol yn y Cyngor yn cael ei gyrru yn ei blaen gan y Comisiynwyr sydd wedi dweud yn glir y byddant yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, y Pwyllgorau Sgriwtini a rheoleiddiol yn y Cyngor i sicrhau newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Corfforaethol a'r Broses Gyllidebol i baratoi ar gyfer ailsefydlu'r prosesau democrataidd arferol yn Ynys Môn yn y dyfodol.

**3.3** Bydd cryfhau Llywodraethu Corfforaethol yn ffactor allweddol a ymgorfforir yn y Cynllun Corfforaethol a'r broses Gyllidebol. Bydd rhan o'r gwaith cryfhau hwn yn ymwneud ag adolygu'r Cyfansoddiad a gofynion o ran uwch reolwyr ym Môn er mwyn gyrru yn ei flaen y newid hwn yn y tymor byr a'r tymor canol.

**3.4** Yn olaf ac yn bwysicaf, bydd y Cynllun Corfforaethol a'r Broses Gyllidebol yn gosod y dinesydd a'u cymunedau yng nghanol y ddarpariaeth o wasanaeth ac yn ei gwneud yn haws iddynt gael mynediad i wasanaethau cyhoeddus allweddol.

**3.5** Mae Atodiad 3 yn adroddiad a baratowyd yn wreiddiol fel ymateb i frîff gan y Grŵp Llywio Adferiad i wneud y broses gyllidebol yn fwy cynhwysol. Bydd hyn yn arwain at nifer o newidiadau o gwmpas :-

- "datganiad rhag-gyllidebol" gan y Pwyllgor Gwaith yn yr haf yn nodi rhagdybiaethau a chanllawiau ar gyfer y gyllideb;
- rownd gyntaf o ymgynghori gyda phwyllgorau sgriwtini a chydranddeiliaid yn yr hydref;
- gwneud y rownd o ymgynghori cyllidebol a gynhelir yn y flwyddyn newydd yn llai caeth fel bod modd iddi redeg am gyfnod hwy.

**3.6** Datblygwyd hyn ers hynny er mwyn integreiddio'r broses yn well gyda'r broses Cynllunio Busnes Corfforaethol sydd hefyd yn datblygu. Mae amserlen amlinellol wedi ei chynnwys mewn adroddiad ar wahân ar y Cynllun Busnes Corfforaethol ond sy'n dilyn y broses a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

**3.7** I wneud y newidiadau hyn, bydd angen i'r Cyngor newid y Rheolau Gweithdrefn Cyllidebol a bydd raid i'r Comisiynwyr gychwyn y broses trwy fabwysiadu datganiad rhag-gyllidebol. Mae Atodiad 4 yn cynnwys newidiadau a awgrymir i'r Rheolau Gweithdrefn Cyllidebol. Rwy'n argymell bod y Comisiynwyr yn argymell y rhain i'r Cyngor llawn.

## 4. CYLLIDEBAU HANESYDDOL

**4.1** Bu cyllideb 2011/12 yn ymarfer heriol. Fe ostyngodd Cyllid Trysorlys Cyfun (AEF) y Cyngor 1.7% mewn termau ariannol dros 2010/11, ac o'i fesur ar sail y pen, roedd yn £1,345, yn bur agos at gyfartaledd Cymru o £1,320.

**4.2** Wrth gymeradwyo'r gyllideb am 2011/12, fe ddaeth y Cyngor i farn gytbwys rhwng darparu gwasanaeth a'r effaith ar dalwyr y Dreth Gyngor. Roedd y gyllideb yn cynnwys gwneud arbedion sylweddol o £3.4m i sefydlu Treth Cyngor Band D o £855.90 (cynnydd o 3.7% o 2010/11).

**4.3** Dros y pedair blynedd diwethaf, roedd cyfanswm yr arbedion a nodwyd fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb yn £8.9m ac fe ddaeth yn fwy o her i gyflawni'r arbedion hyn o flwyddyn i flwyddyn.

| | Arbedion |
|---|---|
| 2008-09 | £2.3m |
| 2009-10 | £2.2m |
| 2010-11 | £2.0m |
| 2011-12 | £3.4m |

Roedd y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol yn Atodiad 1 yn treiglo ymlaen y bwlch a ddisgwylid rhwng ariannu a gwariant, fel a ganlyn:

| | Arbedion Rhagamcanedig |
|---|---|
| 2012-13 | £4.0m |
| 2013-14 | £2.8m |

O'r rhain, roedd y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn rhagamcanu arbedion (ac eithrio cyllidebau ysgol) o £1.22m yn 2012-13 a £1.43m yn 2013-14. Roedd hyn yn gadael bwlch oedd angen ei bontio trwy arbedion pellach a oedd eto i'w canfod. Nid ydym yn argymell defnyddio'r arian wrth gefn i gyllido'r bwlch yn y gyllideb oherwydd mai ffynhonnell gyllid unwaith ac am byth fyddai hon ac ni fyddai ond yn gohirio'r broblem.

## 5. MATERION A PHWYSAU

**5.1** Bydd cyllideb 2012-15 yn cael ei datblygu dros y 6 mis nesaf yn unol â chanlyniadau'r Cyngor am 2010-11, yr arian wrth gefn a'r balansau bryd hynny (gweler adroddiad ar wahân ar 2010-11) a sefyllfa fonitro 2011-12 wrth i'r flwyddyn gyfredol fynd yn ei blaen.

**5.2** Bydd angen i'r Cyngor, felly, fod â Chofrestr Risg fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol a'r Broses Gyllidebol i nodi'r heriau gweithredol sylweddol a'r heriau ariannol yn y tymor canol. Bydd effaith yr heriau yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses fonitro ariannol a thrwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a bydd angen adrodd yn ôl arnynt yn chwarterol i'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth, y Comisiynwyr a'r Pwyllgorau Sgriwtini ac Archwilio.

**5.3** Mae'r materion y disgwylir iddynt gael eu cynnwys mewn trafodaethau ar y gyllideb yn cynnwys y canlynol:-

**5.4 Disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran cyllidebau ysgolion** – Disgwyliad yw hwn yn ymwneud â'r newid ariannol mewn cyllidebau a ddirprwywyd i'r ysgolion. Fel ffigwr ariannol, mae'r risg o chwyddiant neu newidiadau cost eraill yn cael eu trosglwyddo i'r ysgolion. Efallai y bydd disgwyliadau Llywodraeth Cymru'n newid yn sgil yr effaith a gaiff gostyngiad yn nifer disgyblion ac fel y mae ffigyrau dros dro PLASC yn ei nodi, mae'r niferoedd yn parhau i ostwng. Un dybiaeth gynllunio yw y bydd y Cyngor yn dymuno dilyn disgwyliadau Llywodraeth Cymru a gwahoddir y Comisiynwyr i gadarnhau hyn.

**5.5 Adolygu Tâl a Graddfeydd**

**5.5.1** Fe ddirprwywyd y pŵer i weithredu ar yr Adolygiad Tâl a Graddfeydd i'r Panel Tâl a Graddfeydd gan y Cyngor llawn. Nid yw'n swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith ac felly y mae tu allan i sgôp y Comisiynwyr. Er hynny, mae Strategaeth Gyllidebol y Cyngor yn adlewyrchu'r cynigion Tâl a Graddfeydd a bydd cynigion cyllidebol y Comisiynwyr yn parhau i gymryd hyn i ystyriaeth.

**5.5.2** Ar ôl i'r undebau beidio â chynnal pleidlais ar gynigion blaenorol yr awdurdod, fe ailystyriwyd agwedd yr awdurdod gan y Panel Tâl a Graddfeydd yn Ionawr 2011. Fe fabwysiadwyd proffil cost wedi'i ddiwygio (yn gyffredinol yn is) ganddynt, a hynny'n adlewyrchu'r cynigion oedd ar y bwrdd ar y pryd, ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol.

**5.5.3** Yn dilyn trafod gydag undebau llafur a thrafodaethau yn y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol, mae'n dod yn fwy clir y bydd angen ailymweld â rhai agweddau o gynigion Ionawr 2011, ac y bydd angen adnoddau ychwanegol i ailgychwyn y broses. Fe all hynny yn ei dro arwain at adolygiad o'r proffil cost rhagamcanedig dros y tymor canol.

**5.5.4** Oherwydd bod swm wedi'i roi o'r neilltu mewn cyllidebau blynyddol, mae gohirio cynigion yn arwain at gronni arian wrth gefn oedd yn £2.5m ar 31 Mawrth 2011. Fe fydd y swm hwn yn parhau i fod ar gael i ariannu cost y broses adolygu, i ariannu unrhyw ôl-ddyddio taliadau ac unrhyw drefniadau diogelu.

**5.5.5** Wrth i gynigion gael eu datblygu, bydd angen cadw'r darpariaethau blynyddol a'r arian wrth gefn mewn golwg er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ond ddim yn ormodol o ystyried y risgiau yn y maes hwn. Yn y cyfamser, fe all y strategaeth dreiglo ymlaen y rhagdybiaethau blaenorol

.

**5.6 Cydweithio**

**5.6.1** Mae'r Cyngor yn cymryd rôl gynyddol mewn gweithgareddau cydweithio lle ceir gwelliant mewn gwasanaeth i ddinasyddion ynghyd ag achos busnes cadarnhaol. Yn dilyn adroddiad Simpson, ac adroddiadau eraill ar gydweithio o fewn Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, fe fydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn prosiectau rhanbarthol (Gogledd Cymru) a chenedlaethol.

**5.6.2** Bydd rhai o'r prosiectau hyn angen cyllid cychwynnol ac mae trefniadau wedi'u gwneud o dan y pennawd 'Cost Newid' yn y gyllideb i ariannu'r rhain. Bydd amseriad eu gweithredu yn naturiol yn dibynnu ar yr holl bartneriaid, ond yn y pen draw, y disgwyl yw y bydd y prosiectau hyn yn cyfrannu at dargedau arbedion.

## 5.7 Risgiau Eraill

Rhai o'r risgiau lefel uchel eraill fydd angen eu hystyried fel rhan o'r strategaeth gyllidebol ac y gellir eu nodi ar y cyfnod cynnar hwn yw:

- Y trawsnewid mewn llywodraethu corfforaethol ar amser o gyfyngiadau cyllidebol fydd yn gofyn am agweddau gwahanol tuag at weithredu.
- Mae angen rhesymoli cyfarfodydd er mwyn defnyddio capasiti'r swyddogion cyfredol yn fwy effeithiol a lleihau niferoedd y cyfarfodydd ad-hoc sy'n bodoli.
- Bydd unrhyw ostyngiad sylweddol yn y gweithlu - sydd i'w ddisgwyl mewn llywodraeth leol yn gyffredinol dros y tymor canol - yn cael effaith ar wasanaeth.
- Mae yna alw demograffig parhaol am wasanaethau gofal cymdeithasol.
- Yr angen i ddyrannu adnoddau i gyflawni dyheadau ysgolion yr Unfed Ganrif a'r Hugain.
- Effaith yr adnoddau sydd eu hangen i ariannu'r Cynllun Trefnu Ysgolion.
- Yr her o ddatblygu strategaeth economaidd a buddsoddi mewnol ar gyfer twristiaeth a chyflogaeth.
- Yr her a gyfyd o gael system dechnolegol gydgysylltiedig ar gyfer gwybodaeth gorfforaethol.
- Ymchwilio i ryddhau asedau yn mewn modd strwythuredig i ariannu newid trawsffurfiol.
- Yr her o gyflawni incwm o ffioedd a thaliadau ar amser o gyfyngiadau ariannol.
- Yr angen i ymateb i alwadau newydd am wasanaeth megis digartrefedd a mewnfudo.

## 5.8 Gwariant Cyfalaf a Chyllido Cyfalaf

**5.8.1** Wrth i gyllid cyfalaf llywodraeth ganolog ostwng, mae'n amlwg bod yn rhaid i lywodraeth leol orfod canfod cyfran fwy ar gyfer ei anghenion cyllid cyfalaf. Mae gwaith a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi sefydlu y cafwyd, ers 2005/06, gynnydd 400% yng ngwerth y benthyca digefnogaeth wnaed gan Gynghorau yng Nghymru ac yn 2011/12 hon, am y tro cyntaf, oedd y ffynhonnell unigol fwyaf o gyllid ar gyfer gwariant cyfalaf. Fodd bynnag, roedd pryderon ymysg awdurdodau lleol bod eu pŵer unigryw yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i fenthyca yn gallu dod â disgwyliadau afrealistig o du cydranddeiliaid mewn perthynas â'u gallu i wneud mwy o fenthyciadau tymor hir nag y gallant eu fforddio'n bwyllog o ystyried y cyllidebau refeniw sy'n lleihau.

**5.8.2** Mewn ymateb i'r pwysau ar gyllid refeniw a chyfalaf a'r pwysau o ran amser sy'n cael effaith ar y broses gyllidebol ei hun, ni wnaeth cyllideb gyfalaf yr awdurdod ar gyfer 2012 ond dreiglo ymlaen yr ymrwymiadau a'r rhaglenni blynyddol cyfredol. Ni fydd unrhyw gynlluniau mawr yn cychwyn o'r newydd yn 2011/12 ac nid oes ychwaith (fel yn y gorffennol) gynllun cyfalaf am flynyddoedd dilynol.

**5.8.3** Mae angen adnewyddu'r cynllun cyfalaf ac ystyried pa gynlluniau newydd y gellir eu fforddio. Fodd bynnag, gyda thoriad o 40% yn adnoddau cyfalaf Llywodraeth Cymru dros y cyfnod, mae yna golled enfawr o ran cyfleoedd cyllido ynghyd â'r realiti na fydd yn bosibl datblygu gwasanaethau oherwydd nad oes digon o adnoddau i gynnal stoc gyfalaf.

**5.8.4** Mae hyn yn arwain i drafodaeth ynghylch pa mor bell y gall yr awdurdod fynd mewn perthynas â benthyca digefnogaeth. Lle bo cynlluniau'n hunanariannu, mae yna ddigon o hyblygrwydd o fewn y dulliau presennol ac o fewn y fframwaith cyllidebol i ganiatáu i'r rhain fynd yn eu blaenau, ond yn gyffredinol, nid oes llawer iawn o gynlluniau sy'n hunanariannu.

**5.8.5** Un agwedd a amlinellwyd yn rownd gyllidebol y flwyddyn ddiwethaf oedd awgrymu y gellid sicrhau £2m y flwyddyn o fenthyca digefnogaeth yn lle'r cyllid a gollwyd gan Lywodraeth Cymru ac adeiladu'r cyllid hwnnw i mewn i'r strategaeth cyllideb refeniw tymor canol i drin y ddyled. Mae hyn yn helpu i ddangos fforddiadwyaeth. Er eu bod wedi'u cynnwys o fewn cynlluniau refeniw, ni awdurdodwyd unrhyw gynlluniau cyfalaf penodol i wneud defnydd o'r hyblygrwydd hwn ac nid yw'r rhain, felly, wedi'u cynnwys yn y cyllidebau cyfalaf cyfredol. Un o'r materion i'w hystyried yn y broses gyllidebol yw i ba raddau y gellir defnyddio benthyca digefnogaeth i ategu at y rhaglen gyfalaf.

**5.8.6** Mae'r pwysau parhaus ar gyllid cyfalaf yn gofyn bod ystyriaeth yn cael ei rhoddi i offerynnau ariannol posibl a allai ddarparu cyllid sylweddol. Fe all y rhain gynnwys Cyllido Treth yn Gynyddol (TIF), Ardoll Buddsoddi Cymunedol (CIL) a byddant yn cael eu hystyried ochr yn ochr â pharatoi'r gyllideb. Fe all y rhain ddarparu atebion ar ôl adolygu'r cyllid sydd ei angen i wneud newidiadau o ran wynebau ffyrdd, palmentydd a chanolfannau siopa cymunedol a chyda'r gallu i barhau i ddatblygu Buddsoddiadau Mewnol, Datblygu ac Adfywio Economaidd yn seiliedig ar Ynys Ynni, Twristiaeth a thechnoleg yr Unfed Ganrif a'r Hugain.

## 6. DIWEDDARU'R RHAGDYBIAETHAU

**6.1** Gan gymryd yr uchod i ystyriaeth, mae'r rhan hon yn ceisio diweddaru a threiglo ymlaen y rhagamcanion yn y strategaeth cyllideb tymor canol a hynny er mwyn cynorthwyo cynllun cyllidebol y Comisiynwyr. Mae natur rhagamcanion a'u hamrywioldeb yn golygu ei fod yn bwysig deall y rhagdybiaethau sylfaenol sy'n cael eu gwneud.

**6.2** Mae darogan y dyfodol yn ansicr bob amser. Wrth i'r rownd gyllidebol fynd yn ei blaen, mae'n anochel y bydd rhagdybiaethau yn newid wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael neu wrth i safbwyntiau newid. Nid yw'r rhagdybiaethau gorau hyd yn oed byth yn iawn. Mae perygl mabwysiadu dull gor-soffistigedig ar gyfer gwyddor nad yw'n gysáct, a risg bod rhoi ffigyrau i lawr ar bapur yn creu argraff ffug o gywirdeb sydd ddim yn adlewyrchiad digonol o'r ansicrwydd cynhennid. Mae'r dull sy'n dilyn wedi'i fwriadu fel triniaeth gyffredinol ac eang o ffigyrau crwn.

**6.3** Mae hyn yn treiglo'r rhagdybiaethau yn Atodiad 1 ymlaen fel a ganlyn:-

| | **2012-13 £m** | **2013-14 £m** | **2014-15 £m** |
|---|---|---|---|
| **Y Cyllid sydd ar Gael** | | | |
| Llywodraeth Cymru | 92.7 | 93.7 | 93.7 |
| Y Dreth Gyngor | 26.7 | 28.1 | 29.5 |
| | 119.4 | 121.8 | 123.2 |
| **Cyllideb y Llynedd** | 118.9 | 119.4 | 121.8 |
| Cyllidebau Ysgolion | + 0.6 | + 0.8 | + 0.4 |
| Costau eraill yn codi | + 1.5 | + 2.3 | + 3.0 |
| Newidiadau Demograffig | + 0.2 | + 0.2 | + 0.2 |
| Cyllido Cyfalaf a Llog | - 0.1 | - 0.4 | 0.0 |
| Cyllido benthyca digefnogaeth | + 0.1 | + 0.2 | + 0.4 |
| Adolygiad Tâl a Graddfeydd | + 0.2 | + 0.4 | + 0.4 |
| Buddsoddi mewn newid | + 0.3 | + 0.2 | 0.0 |
| Twf arall | + 1.0 | + 0.7 | + 0.5 |
| Cydbwyso – y toriadau angenrheidiol | - 3.3 | - 2.0 | - 3.5 |
| **Cyllideb** | **119.4** | **121.8** | **123.2** |

## 6.4 RHAGDYBIAETHAU

| | |
|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru: | 2012-13 a 2013-14 fel yn y rhagdybiaethau arwyddol gan LlCC yn 2010, wedi eu haddasu ar gyfer effaith ffigyrau PLASC, 2014-15 dim cynnydd yn dilyn cyfansymiau bloc Cymru. |
| Y Dreth Gyngor : | Fel yn Atodiad 1. 2014-15 yn treiglo ymlaen rhagdybiaeth o gynnydd o 5% mewn derbyniadau treth gros. |
| Cyllidebau Ysgolion : | Disgwyliad gan LlCC bod twf yn y cyllidebau ar gyfer ysgolion ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Rhagdybio 1% ar gyfer 2014-15 gan adlewyrchu rhagdybiaeth ar gyfer cyllideb LlC ac addewidion polisi. |
| Costau eraill yn codi : | Gweithredwyd ffigwr crwn o 2% ar gyfer yr holl gyllidebau sydd ddim yn gyllidebau ysgol sy'n rhoi ffigwr oddeutu £1.5m y flwyddyn. Bydd y gyfradd chwyddiant gwirioneddol y bydd yr awdurdod yn ei hwynebu yn dibynnu ar beth fydd yn digwydd i gyflogau dros y cyfnod. Er mai safiad y cyflogwyr fydd rhewi cyflogau, gall hynny fod yn anghynaladwy, yn arbennig felly yn y blynyddoedd diweddarach. Gan adlewyrchu risg cynyddol wrth i amser fynd heibio, rwyf wedi defnyddio 3% yn 2013-14 a 4% yn 2014-15. Byddwn yn ail weld â'r rhagdybiaeth hon. |

| | |
|---|---|
| Newidiadau Demograffig: | Fel yn Atodiad 1, wedi'i dreiglo ymlaen. Hwn yw'r twf yn niferoedd yr henoed sydd yn cynyddu'r gyllideb gwasanaethau cymdeithasol, net y lleihad mewn niferoedd disgyblion sydd yn lleihau'r gyllideb ysgolion (addasiad a ganiateir i ddisgwyliadau LlC). Bydd angen diweddaru'r ddau set o symiau yn ystod y trafodaethau ar y gyllideb. |
| Cyllido cyfalaf a llog: | Fel yn Atodiad 1 sydd ynddo'i hun yn adlewyrchu rhagamcanion Rheoli Trysorlys. Roedd y gostyngiadau'n adlewyrchu'r gwelliant oedd yn cael ei ragweld yn y llog fyddai'n cael ei ennill wrth i'r raddfa wella, ond unwaith yn rhagor, bydd hyn yn cael ei ddiweddaru yn unol â rhagamcanion Rheoli'r Trysorlys. |
| Cyllido benthyciadau digefnogaeth: | Fel yn Atodiad 1 ond wedi'i ohirio am flwyddyn gyfan oherwydd nad yw'r awdurdod wedi symud ymlaen yn y cyfamser i awdurdodi benthyca o'r fath. (gweler 5.8.5) |
| Adolygiad Tâl a Graddfeydd: | Fel yn Atodiad 1, oedd ei hun yn adlewyrchu rhagamcanion o'r hyn oedd wedi'i gynnig yn y Panel Tâl a Graddfeydd. (gweler 5.5.5) |
| Buddsoddi mewn Newid : | Hwn yw'r £1m ddyrannwyd dros dair blynedd gan y Cyngor ym Mawrth 2011 i'w wario gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda'r Bwrdd Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Mae'r swm fel y cafodd ei broffilio i 2013-14 wedi'i ymrwymo i raddau helaeth erbyn hyn. |
| Twf arall : | Cyn hyn, roedd £0.5m crwn y flwyddyn wedi'i ganiatau, dim yn gymaint ar gyfer datblygu gwasanaeth, ond yn hytrach i gyllido'r math o bwysau ar wasanaethau na ellir eu hosgoi ac y deuir ar eu traws bob blwyddyn. Mae'r dyraniad wedi'i gynyddu £0.5m yn 2012-13 i gwrdd â dyheadau'n codi o'r broses Cynllunio Busnes Corfforaethol ac i gryfhau'r gwasanaethau canolog. |
| Ffigwr Cydbwyso : | Hwn yw'r angen net i wneud arbedion o ganlyniad i'r uchod. |

**6.5** Y mae gennym eisoes raglen o arbedion yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Fe ddywedwyd eisoes wrth y Comisiynwyr am y risg o ran cyflawni'r arbedion hyn yn 2011-12 wrth i rai cynlluniau lithro ar eu dyddiad gweithredu. Wrth symud ymlaen i 2012-13, rhagwelir ar hyn o bryd ddiffyg o £0.2m yn erbyn targed 2011-12. Yr arbedion ychwanegol o'r rhaglen (yn net o ysgolion sy'n cael eu trin ar wahân yn yr agwedd hon oherwydd disgwyliadau LlC) yw:

| | |
|---|---|
| 2012-13 | £1.22m |
| 2013-14 | £1.43m |
| 2014-15 | £0.64m |

Nid yw'r rhain yn ddigonol dros y cyfnod tair blynedd i gau'r bwlch yn y gyllideb.

## 7. CYNLLUN CYLLIDEBOL Y COMISIYNWYR (DATGANIAD RHAG-GYLLIDEBOL)

**7.1** Yn gyntaf, bydd angen i'r Comisiynwyr ystyried a ydynt yn gyfforddus gyda'r tybiaethau a amlinellwyd uchod fel sail ar gyfer cynllunio'r gyllideb. Y risgiau mwyaf o hyd fydd trywydd tebygol chwyddiant a chyllid Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd cymryd agwedd fwy gwyliadwrus yn cyfiawnhau gor-gynllunio arbedion ar gyfer y risg hon. Ni fyddwn yn argymell agwedd llai gwyliadwrus.

**7.2** Mae'r dull gweithredu yn y rhan flaenorol yn arwain at darged arbedion o £8.8m dros dair blynedd (sydd ychydig yn llai na'r rhagamcanion cynharach, yn bennaf oherwydd bod y fersiwn hon yn fwy optimistaidd ynghylch chwyddiant). Y targed ar gyfer 2012-13 yw £3.3m, neu 2.8% o'r gyllideb.

**7.3** Daethpwyd i'r targed arbedion ar ôl caniatáu ar gyfer ymrwymiadau y gwyddys amdanynt, yna £0.5m ar gyfer twf 'nad oes modd ei osgoi' ac yna £0.5m ychwanegol. Mae'r £0.5m cyntaf yn lwfans swm crwn ar gyfer y mathau o bwysau ar wasanaethau nad oes modd eu rhagweld ar hyn o bryd, ond sydd fel arfer yn codi mewn unrhyw flwyddyn gyllidebol ac sy'n anodd i'w gwrthsefyll. Mae'r ail £0.5m yn lwfans ar gyfer ailfuddsoddi yn y blaenoriaethau sy'n codi o'r adolygiadau cyfredol o'r trefniadau llywodraethu corfforaethol, neu yn wir unrhyw beth arall.

**7.4** Mae hon yn rhagdybiaeth hollbwysig y gwahoddir y Comisiynwyr i'w chadarnhau, neu fel arall. Os oes angen mwy ar gyfer ei ail-fuddsoddi, bydd raid cynyddu'r targed ar gyfer arbedion. Rwy'n amau a allai'r ffigwr fod yn llai.

**7.5** Bydd angen ailedrych ar y pwysau ariannol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda'r trefniadau newydd a'r Cynllun Corfforaethol a bydd raid gwneud addasiadau os oes angen. Rhaid i unrhyw eitemau newydd y bwriedir eu cynnwys yn 2012/13 neu y tu draw i hynny fod yn rhan annatod o'r rhaglen i drawsnewid llywodraethu corfforaethol, a rhaid iddynt gysylltu'n uniongyrchol hefyd gyda chyflawni'r canlyniadau blaenoriaeth yn y Cynllun Corfforaethol neu mae'n rhaid iddynt fod wedi'u hasesu fel cynllun buddsoddi i arbed.

**7.6** Yn nesaf, mae angen i'r Comisiynwyr ystyried yr agwedd tuag at arbedion cyllidebol.

**7.7** Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyffredinol wedi mabwysiadu targedau canrannol yng nghyswllt cyllidebau, gwasanaeth wrth wasanaeth. Manteision agwedd o'r fath yw ei bod wedi'u halinio'n glir gyda chyfrifoldebau o ran dal cyllideb, fel ei bod yn haws diffinio perchenogaeth o ran y cynigion ac atebolrwydd am eu darparu. Yr anhawster gydag agwedd o'r fath yw ei bod yn llai corfforaethol, yn fwy anodd i'w chysylltu gyda chanlyniadau cyffredinol ac fe all annog dull seilo o weithredu.

**7.8** Mewn rhai blynyddoedd, mae'r awdurdod wedi ychwanegu at hyn trwy raglen o arbedion corfforaethol dan rai o benawdau'r gyllideb – eitemau fel ynni, papur ac ati ar draws yr holl wasanaethau. Gall y ffaith fod hyn yn cael ei ystyried fel tynnu swm o'r gyllideb y mae Penaethiaid Gwasanaeth yn atebol amdani (yn ei chyfanrwydd) bylu atebolrwydd. Gall hyn weithio pan fo rheolaeth neu gyfeiriad canolog clir dros y cyllidebau hyn sy'n sicrhau bod arbedion cyllidebol yn cael eu cyflawni.

**7.9** Roedd y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn ddull arloesol pellach - rhaglen o arbedion yn cael eu rheoli'n gorfforaethol a'u cysylltu dan themâu yn hytrach nag yn ôl gwasanaethau, mae hyn yn alinio'n well gyda rhaglen sy'n cael ei gyrru'n gorfforaethol a chyda chyfres o amcanion a blaenoriaethau. Yr anfantais gydag agwedd o'r fath yw dryswch o ran atebolrwydd yn erbyn cyllidebau'n cael eu gyrru gan wasanaethau wedi'u halinio â'r strwythur rheoli. Mae rhai o'r problemau gyda llithriad yn 2011-12 yn adlewyrchu'r diffyg perchenogaeth am brosiectau a'r ffaith bod ansicrwydd ynghylch atebolrwydd o ganlyniad i hynny.

**7.10** Wrth symud ymlaen, mae angen i ni fod yn glir ynghylch y dull yr ydym am ei ddefnyddio ar gyfer targedau cyllidebol.

**7.11** Mae'r Grwp Arweinyddiaeth Strategol yn credu na ddylem roi'r gorau i'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy, oherwydd y manteision i gynllunio strategol. Mae angen adolygu'r holl brosiectau, y rhai cyfredol a'r rheini i'r dyfodol, i asesu a yw'r arbedion a ragamcanwyd yn parhau i fod yn dargedau da ac i ystyried a yw'r amseru yn iawn.

**7.12** Mae yna feysydd gwaith eraill a allai elwa o ddull awdurdod cyfan:-

- **Cynhyrchu Incwm** Lle gall yr awdurdod godi tâl am nwyddau a gwasanaethau, mae ganddo, mewn nifer o achosion, ddisgresiwn ynghylch faint i'w godi amdanynt. Mae rowndiau cyllidebol yn y gorffennol wedi ceisio cynyddu incwm trwy osod canllawiau cynnydd sy'n uwch na chwyddiant, ac o ganlyniad, mae'r cyfansymiau cyffredinol a gesglir mewn incwm o ffioedd a thaliadau'n cymharu'n ffafriol gydag awdurdodau eraill. Nid yw hyn yn dweud bod pob tâl unigol a wneir yn iawn – efallai y bydd cyfleoedd i dargedu rhai taliadau i'r 'hyn y gall y farchnad ei gymryd'. Nod y prosiect tebygol hwn yw peidio â gosod cynnydd cyffredinol ond chwilio am gyfleoedd i gynyddu taliadau lle gellir gwneud hynny.

- **Contractau Allanol** Mae'r awdurdod wedi'i allanoli'n drwm iawn gyda chontractau allanol tymor hir sy'n werth mwy na £100k y flwyddyn. Oherwydd bod y rhain wedi'u hymrwymo'n gontractyddol, nid oes rhaid eu sgriwtineiddio fel rhan o'r broses gyllidebol flynyddol, er y gall ail-dendro contractau wrth eu hadnewyddu ddod ag arbedion oherwydd yr elfen o gystadleuaeth. Rwyf yn credu y dylai'r awdurdod fod yn adolygu contractau allanol gyda golwg ar wneud arbedion trwy leihau manylebau yn ogystal â phris. Dylai gynllunio i wneud hynny wrth adnewyddu contractau ond, yn ychwanegol at hyn, fe ddylai fod yn ymchwilio i ailnegydu contractau trwy gytundeb gyda chontractwyr hyd yn oed yn ystod cyfnod y contract. Yn yr amseroedd anodd hyn, dyma beth y mae cleientiaid sector preifat a chyhoeddus eisoes yn ei wneud, ac fe ddylai contractwyr fod yn barod ar gyfer hyn.

  **Prosiectau Cydweithio** Mae yna nifer fawr o brosiectau cydweithio ar wahanol gyfnodau yn eu cynnydd, gyda rhai ohonynt eisoes yn darparu. Mae'r rhai o'r rhain yn helpu i ddarparu arbedion o fewn cyllidebau priflif, er enghraifft wrth iddynt negydu gwell telerau pwrcasu. Mae rhai eraill yn brosiectau penodol sy'n darparu arbedion mewn llinellau cyllidebol arbennig os dewisir nhw. Mae angen adolygu'r amrywiol brosiectau sydd ar y gweill, er mwyn ystyried sut y maent yn darparu arbedion a'u bod wedi'u cyfrif ond heb eu cyfrif ddwywaith o fewn cynlluniau i arbed.

**7.13** Rwyf felly yn cynnig y dull isod ar gyfer trin targedau arbedion:-

(i) Cadarnhau'r prosiectau cyfredol yn y RhBF (ond gan adolygu'r arbedion / amseru mewn cydweithrediad gyda Gwasanaeth Cyllid) – hyd yn oed os yw'r rhain yn uwch na'r ffigwr canllaw 4% isod;

(ii) Ystyried prosiectau RhBFf newydd lle mae'r rhain yn adlewyrchu themâu corfforaethol sy'n berthnasol i fwy nag un gwasanaeth;

(iii) Gofyn i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth nodi arbedion o 4% yn eu cyfadrannau, ar y sail y gall y Cyfarwyddwr Corfforaethol weithredu'r targed hwnnw ar sail amrywiol ar draws y gyfadran a bod yr arbedion RhBFf yn cyfrif tuag at y targedau.

Mewn perthynas â'r holl weithredu a'r mesurau a nodwyd yn y broses Cynllunio Busnes Corfforaethol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol/ Penaethiaid Gwasanaeth i nodi ar gyfer pob un:-

- rhai y gellir eu cyrraedd o fewn y gyllideb;
- unrhyw rwystrau i gyrraedd targedau/mesurau;
- y rhai sydd angen adnoddau ychwanegol, ac os felly, i geisio meintioli'r adnoddau sydd eu hangen dros y tair blynedd nesaf;
- unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen gan eraill er mwyn cyflawni targedau/mesurau.

**(iv)** Adroddiadau i'w paratoi ar (i) i (iii) uchod i'w hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol ym mis Hydref/Tachwedd yn unol â'r amserlen yn Atodiad 3, fel rhan o sgriwtini cyn gwneud penderfyniad ar y gyllideb.

7.14 Bydd angen dod ag adroddiadau cynnydd yn ôl i'r Comisiynwyr yn y cyfamser, ond nod y broses hon yw sicrhau atborth cynhwysol erbyn diwedd mis Tachwedd. Dyma'r garreg filltir pryd y disgwylir gwell gwybodaeth ar y setliad i lywodraeth leol (er nad oes unrhyw ddyddiad wedi'i gadarnhau hyd yn hyn). Mae hyn wedyn yn arwain i drafodaeth y Comisiynwyr ar gynigion cychwynnol cyllideb 2012-13 ac wedi hynny, sef cyfnod nesaf y broses gyllidebol ddiwygiedig.

## 8. GOBLYGIADAU ADNODDAU DYNOL

**8.1** Bydd goblygiadau sylweddol o ran materion adnoddau dynol yn codi o'r camau y bydd yn rhaid eu cymryd i reoli'r pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu fel sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad hwn. Bydd paratoi cynigion arbedion ynghylch gostwng cyllidebau yn siŵr o gael effaith ar swyddi, yn arbennig felly yn y Meysydd Gwasanaeth hynny lle mae'r rhan fwyaf sylweddol o'r gyllideb yn gyffredinol yn cael ei gwario ar gostau staff. Bydd y cyfraniad a wneir gan y trawsnewid llywodraethu corfforaethol yn 2012/13 hefyd yn sylweddol a bydd yn bwysig asesu risg ac effaith unrhyw gynigion.

**8.2** Bydd Meysydd Gwasanaeth gyda hyn yn cychwyn proses o drafod ac ymgynghori ar y cynigion arbedion gyda'r Undebau Llafur, ac mae'n hanfodol ymgynghori'n briodol ar y cynigion a gyflwynir gan y Comisiynwyr.

**8.3** Bydd raid sefydlu gweithdrefnau i gefnogi gweithrediad y rhaglen trawsnewid llywodraethu corfforaethol a'r heriau cyllidebol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y broses ar gyfer Adolygu a Rheoli Swyddi Gweigion, gyda'r nod o sefydlu cronfa o swyddfa a lenwir ar sail dros dro a fyddai ar gael i'w cynnig i staff parhaol y gall eu swyddi fod dan fygythiad;
- Parhau i ddefnyddio Cynllun Ymddeoliad Cynnar, Cynllun Ymddeoliad Hyblyg a Chynllun Diswyddo'r Cyngor;
- Ystyried newid telerau diswyddo staff;
- Polisi a Gweithdrefnau Adleoli cryfach a threfniadau cryfach ar gyfer y rheini sy'n symud i swyddi eraill;
- Sicrhau bod cyngor ar gael ynghylch gwella sgiliau gweithwyr gan gynnwys ailhyfforddi ac ailsgilio.

**8.4** Yn ogystal, parheir i ganolbwyntio ar wario llai ar ymgynghorwyr a gweithwyr asiantaeth gan roi pwyslais arbennig ar weithwyr asiantaeth sy'n llenwi swyddi gweigion dros dro. Os oes modd, defnyddir y swyddi hyn ar gyfer cyfleon adleoli.

**8.5** Trwy'r gweithdrefnau uchod, a thrwy gynlluniau priodol i gynllunio'r gweithlu, bydd y Cyngor yn parhau i chwilio am bob cyfle i osgoi Diswyddiadau Gorfodol os oes modd.

**8.6** Bydd y cynnydd a wneir o ran cyflymu'r broses o weithredu'r Rhaglen Trawsnewid Llywodraethu Corfforaethol yn golygu bod angen syniad clir o'r adnoddau y bydd raid wrthynt i gefnogi'r fath gamau a bydd angen ail-flaenoriaethu'r baich gwaith cyfredol i sicrhau y darperir y capasiti angenrheidiol i'r rhaglen drawsnewid ac i'r meysydd risg allweddol yn y meysydd gwasanaeth.

## 9. ARGYMHELLION

Gwahoddir y Bwrdd Comisiynwyr i:-

**9.1** gadarnhau y byddant yn cael eu harwain gan y Strategaeth Tymor Canol cyfredol, neu amlinellu cyfeiriad unrhyw fwriadau gwahanol;

**9.2** mabwysiadu'r amserlen amlinellol ar gyfer y broses gyllidebol fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad ar y broses Cynllunio Corfforaethol;

**9.3** argymell y newidiadau yn Atodiad 4 i'r Cyngor Sir fel newid i'r Cyfansoddiad;

**9.4** cadarnhau y dylai'r cynllun cyllidebol ar gyfer ysgolion ddilyn disgwyliadau LlC;

**9.5** cadarnhau'r dull cyfredol o drin benthyca digefnogaeth;

**9.6** cadarnhau (neu fel arall) rhagdybiaethau rhan 6 fel cefndir i ddiweddaru'r strategaeth;

**9.7** mabwysiadu'r canllawiau yn 7.1.3 uchod fel sail ar gyfer paratoi cyllidebau;

**9.8** dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol a'r Comisiynydd Arweiniol ar gyfer Rheolaeth Gorfforaethol a Chyllid y gwaith o lunio 'Cynllun Cyllidebol y Comisiynwyr' (y datganiad rhag-gyllidebol y cyfeirir ato yn Atodiad 3) sy'n adlewyrchu'r uchod a thrafodaethau'r Comisiynwyr, fel dogfen ffurfiol i lywio gweddill y broses gyllidebol ar gyfer 2012-13.

**DAVID ELIS-WILLIAMS**
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** **28 MEHEFIN 2011**

# STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW YN Y TYMOR CANOL 2011 - 2014

Mabwysiedir y strategaeth hon gan Gyngor Sir Ynys Môn i gefnogi ei flaenoriaethau strategol ac i arwain y modd y cynllunir gwasanaethau.

Er bod pennu'r gyllideb yn broses flynyddol, dylid ei hystyried fel rhan o raglen sy'n treiglo o un flwyddyn i'r nesaf. Cafodd y strategaeth ariannol tymor canol ei datblygu nid yn unig i gefnogi blaenoriaethau strategol ond hefyd i gwrdd â'r sialensiau sylweddol sy'n wynebu cyllid cyhoeddus.

Amcanion y strategaeth yw:-

- Cefnogi blaenoriaethau strategol y Cyngor
- Rhoi sylw i faterion a godwyd gan yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol
- Cwrdd â sialensiau sy'n wynebu cyllid cyhoeddus
- Cyrraedd y targedau hyn heb i hynny gael effaith andwyol ar gadernid ariannol y Cyngor.

## YR EGWYDDORION SY'N ARWAIN Y BROSES

Wrth wynebu'r sialens o gwrdd â blaenoriaethau lleol yn erbyn cefndir o gyfyngu ar wariant cyhoeddus, mae'r strategaeth yn cydnabod:-

**Ni fedrir cyflawni hyn drwy raglen o doriadau bychain**. Er bod yr arfer o wneud toriadau bychain i bob cyllideb blwyddyn ar ôl blwyddyn yn apelio efallai at y syniad o chwarae teg, nid yw'n cydnabod blaenoriaethau - sef y gall un gwasanaeth fod yn bwysicach nag un arall. Nid ydyw ychwaith yn annog newidiadau radical.

**Ni fedr y Cyngor gwrdd ag anghenion pawb a bydd yn rhaid iddo roddi blaenoriaeth i wasanaethu'r mwyaf bregus.** Wrth i gyllid cyhoeddus leihau, daw'n llai posibl i roddi gwasanaeth i bawb. Efallai y bydd raid cyfyngu rhai gwasanaethau i'r rheini sydd fwyaf mewn angen. Yn ymarferol, gall hyn olygu mwy o drothwyon cymhwyster neu rai uwch a mwy o ffioedd yn seiliedig ar brofion modd ar gyfer gwasanaethau.

**Mae'r Cyngor yn gwario gormod ar gadw adeiladau**. Mae cyfuniad o doriadau bychain a chyndynrwydd i wneud newidiadau radical wedi arwain at gynnal y status quo i raddau totemig o ran sefydliadau'r Cyngor. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at ddirywiad yng nghyflwr nifer o'r adeiladau oherwydd bod y cyllidebau ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw wedi bod yn annigonol. Bydd y strategaeth yn adolygu a oes ffyrdd gwell o ddarparu gwasanaethau.

## Darparu gwasanaethau Effeithlon a Fforddiadwy

Mae Blaenoriaeth Strategol 5 yn cyfeirio at weithio gydag eraill a moderneiddio'n radical y modd yr ydym yn gweithio. Bydd cyflawni hyn yn golygu gwneud newidiadau radical i fodelau darparu gwasanaeth.

Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar:-

| AMCAN | BETH MAE'N EI OLYGU |
|---|---|
| Rhoddi digon o sicrwydd i wasanaethau ynghylch cyllidebau i'w galluogi i gynllunio ymlaen. | Mabwysiadu blaengynlluniau ar gyfer cyllidebau, yn gyffredinol ac ar lefel gwasanaeth.<br><br>Sicrwydd ynghylch i ba raddau y bydd cyllidebau blynyddol yn cael eu treiglo ymlaen yn awtomatig fel cyllidebau sefydlog - ond gyda rhaglen gylchol o adolygiadau mwy sylfaenol o gyllidebau. |
| Cynnal rhywfaint o sefydlogrwydd mewn perthynas â chynnydd blwyddyn ar flwyddyn yn y Dreth Gyngor o fewn unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn genedlaethol. | Mae blaengynlluniau yn seiliedig ar gynnydd o 5% bob blwyddyn yng nghyfanswm yr incwm o'r Dreth Gyngor. Gall twf yn sylfaen y dreth gyfrannu at hyn felly efallai na fydd cyfraddau Band D yn cynyddu ar yr un raddfa.<br><br>Erys yr angen i wneud penderfyniadau bob blwyddyn ar y Dreth Gyngor ac nid ydynt wedi eu cyfyngu gan y cynlluniau hyn. Cymerir i ystyriaeth unrhyw ganllawiau neu amodau gan LlCC ynghylch y Dreth Gyngor. |
| Bod yn realistig ynglŷn â'r lefel o gyllid a gawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. | Mae'r blaengynlluniau yn seiliedig ar ffigyrau ariannu arwyddol gan LlCC. Mae'r rhain yn ymestyn i 2013-14 yn unig felly mae'r strategaeth hon yn ymwneud â'r un cyfnod. |
| Caniatáu ar gyfer twf a lleihad yn y boblogaeth fel mae hyn yn effeithio ar y gyllideb. | Caniatáu yn awtomatig ar gyfer newidiadau yn niferoedd disgyblion fel mae hyn yn effeithio cyllidebau ysgolion.<br><br>Caniatáu ar gyfer twf demograffig y nifer yr henoed. £0.3m y flwyddyn yw'r lwfans hwn ar hyn o bryd ond bydd angen ei adolygu'n barhaus. |
| Cydnabod y bydd raid i ni ganolbwyntio ar brosiectau cyfalaf allweddol oherwydd nid oes digon o arian i gynnal yr asedau cyfredol. | Ni fedrir cwrdd â'r holl ddyheadau am arian cyfalaf. Bydd cynnal y sylfaen asedau ar gyfer darparu gwasanaethau craidd yn cael blaenoriaeth dros ddatblygiadau dyheadol. Efallai y bydd prosiectau'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau cyfalaf yn amodol ar sicrhau cyllid allanol. |

| | |
|---|---|
| Cydnabod efallai y bydd raid gwerthu asedau, chwilio am grantiau allanol, cyllid preifat neu fenthyciadau i ddigolledu am golli cyllid cyfalaf. | Rhesymoli nifer yr adeiladau sy'n cael eu cadw a'u rhedeg yn unol â'r Cynllun Rheoli Asedau. Mae derbyniadau cyfalaf yn adnodd corfforaethol i gefnogi'r rhaglen gyfalaf yn ei chyfanrwydd ond gellir gwneud eithriadau ar sail "i mewn ac allan."<br><br>Mae cynlluniau cyllideb refeniw yn gwneud lwfans penodol ar gyfer cost benthyca di-gefnogaeth gan y Cyngor. |
| Caniatáu arian ar gyfer blaenoriaethau newydd mewn cyllidebau blynyddol gan roddi'r hyblygrwydd i gwrdd â blaenoriaethau, ymateb i risgiau a'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol. | Mae'r strategaeth yn neilltuo £1miliwn ar gyfer buddsoddi mewn newid sy'n angenrheidiol i ddarparu Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy neu brosiectau cydweithredol.<br><br>Mae'r Strategaeth hefyd yn caniatáu ar gyfer cost rhagdybiedig yr adolygiad Tâl a Graddfeydd yn unol â phroffil diwygiedig o'r costau y cytunwyd arno gan y Panel Tâl a Graddfeydd ym mis Ionawr 2011.<br><br>Gwneir lwfans pellach o £0.5 miliwn y flwyddyn yn 2012-13 a 2013-14 i gynorthwyo i gwrdd â blaenoriaethau nad oedd modd eu rhagweld.<br><br>Cadw'r Grant Cytundebau Gwella mewn cronfa berfformiad ganolog i'w ddyrannu gan y Pwyllgor Gwaith i brosiectau unigol. |

Caiff y rhagamcan canolog ei grynhoi isod:-

| | **2011-12 £miliwn** | **2012-13 £miliwn** | **2013-14 £miliwn** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb y flwyddyn flaenorol | 119.4 | 118.9 | 119.8 |
| Cynnydd mewn costau | +2.5 | +3.7 | +3.9 |
| Newidiadau Demograffig | +0.1 | +0.2 | +0.2 |
| Cyllid cyfalaf a llog | -0.3 | -0.1 | -0.4 |
| Cyllido benthyciadau digefnogaeth | +0.1 | +0.2 | +0.4 |
| Adolygiad Tâl a Graddfeydd | - | +0.2 | +0.4 |
| Buddsoddi mewn newid | +0.5 | +0.3 | +0.2 |
| Twf arall | +0.3 | +0.5 | +0.5 |
| **Yr arbedion sydd eu hangen** | **-3.7** | **-4.1** | **-2.8** |
| **Cyfanswm** | **118.9** | **119.8** | **122.2** |
| Wedi ei gyllido gan: | | | |
| Cyllid LlCC | 93.4 | 93.1 | 94.1 |
| Y Dreth Gyngor | 25.5 | 26.7 | 28.1 |
| | 118.9 | 119.8 | 122.2 |

Mae hyn yn arwain at angen i arbed £11m yn ystod y cyfnod 2011-12 i 2013-14. Gan adlewyrchu'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth unrhyw ragamcan, mae perygl y gall y ffigwr hwn fod yn uwch neu'n is. Yn ddiamau bydd angen arbedion.

## RHAGLEN BLAENORIAETHAU FFORDDIADWY

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod nifer o'r bobl a gyflwynodd sylwadau llynedd wedi mynegi pryder ynghylch nifer o faterion gan gynnwys yr angen i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen megis addysg, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd a gwasanaethau ar gyfer pobl fregus tra'n torri i lawr ar fiwrocratiaeth a chostau rheoli.

Yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn, mae'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn adeiladu ar y rhaglen a amlinellwyd y llynedd, sy'n cynnwys amrediad eang o fesurau i wella effeithlonrwydd a lleihau costau. Gellir crynhoi'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy dan y penawdau canlynol:-

- Effeithlonrwydd sy'n cynnwys costau rheoli a gweinyddu
- Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau mwy cost effeithiol
- Canolbwyntio ar yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud a bod yn fwy cost effeithiol o safbwynt gwasanaethau dewisol
- Moderneiddio'r modd yr ydym yn gweithio
- Gostwng gwasanaethau pan fo popeth arall wedi methu.

Dan y penawdau hyn, gosodwyd targedau i gyflawni arbedion a rhoddir sylw i'r rhain fel rhan o gynlluniau busnes y Cyngor.

## STRATEGAETH ARIANNOL

Mae'r Strategaeth Cyllideb Refeniw Tymor Canol yma'n ffurfio rhan o'r strategaeth ariannol ehangach sydd hefyd yn cynnwys:-

- **Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Gyllideb** - yn y Cyfansoddiad, sy'n nodi sut y gwneir penderfyniadau ar faterion ariannol a sut y cânt eu gweinyddu.

- **Cynlluniau a Chyllidebau Cyfalaf** - cânt eu hadolygu a'u mabwysiadu gan y Cyngor llawn, a bydd y Pwyllgor Gwaith yn rheoli gwario cyfalaf o fewn y cynlluniau a'r cyllidebau hyn.

- **Strategaeth Rheoli Trysorlys** – caiff ei mabwysiadu gan y Cyngor ac mae'n pennu sut i ymdrin â buddsoddiadau, benthyciadau a goblygiadau eraill i lif ariannol.

- **Adolygu Arian wrth gefn** - mae dull o ddelio gyda lefel o arian wrth gefn wedi ei amlinellu yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith.

- **Penderfyniadau ar y Gyllideb Flynyddol** – mae'r penderfyniad ar gyllideb flynyddol y Cyngor yn adolygu ac yn cadarnhau'r fframwaith cyllidebol gan gynnwys lefelau dirprwyo mewn perthynas â gwario'r cyllidebau.

APPENDIX 2

**RHAGLEN BLAENORIAETHAU FFORDDIADWY A PHROSIECTAU ARBEDION ERAILL: Asesiad ar gyfer Bwrdd 17/2/2011 a Pwyllgor Gwaith 23/2/2011**

Tabl 3

| | **Enw'r Prosiect** | **11/12** | **12/13** | **13/14** | **14/15** | **15/16** | **Arbediad Blynyddol Cronnol** | **Triniaeth y gyllideb** | **Newidiadau ers yr ymgynghori** | **Costau/ Cyllido** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Effeithlonrwydd** | £m | £m | £m | £m | £m | £m | | | |
| S1 | **Arbed Arian -** gwella effeithlonrwydd economaidd wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. | 0.05 | | | | | 0.05 | Dal y toriad yn ganolog | | £10k cyfraniad i waith y grwp/ "Spend to Save" ar gyfer y prosiectau sy'n deillio |
| S2 | **Proses Drafodaethol -** Ailstrwythuro'r mecanweithiau ariannol ledled y Cyngor er mwyn mireinio caniatadau, taliadau ac ati. | | | 0.20 | | | 0.20 | n/a | | c £350k Cyfalaf, PIG a "Spend to Save" |
| S3 | **Caffael** - Cyflwyno a gweithredu strategaeth gaffael a phroses gydymffurfiaeth i'r Cyngor gyfan. | 0.05 | 0.10 | 0.10 | | | 0.25 | Dal y toriad yn ganolog | Bwrdd Rheoli Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru yn cyforfod ym Mis Mawrth | Angen ffurfioli cyllideb i gost aelodaeth Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru c£50k |
| S17 | **Cynlluniau Hyfforddeion Proffesiynol** - dileu'r cynllun cyfredol ac edrych i'r tymor hir i ganolbwyntio ar opsiynau. | 0.20 | 0.06 | | | | 0.26 | Toriad i'r gyllideb | Newid proffil: [+24] -44/+40/ - :cyfanswm 256 | |
| S21 | **Effeithlonrwydd Ynni -** nodi a darparu arbedion effeithlonrwydd ynni yn amryfal adeiladau gweithredol y Cyngor. | 0.02 | 0.01 | 0.02 | 0.02 | 0.02 | 0.09 | Dal y toriad yn erbyn Eiddo | | Cyllideb Cyfalaf , Benthyca Digefnogaeth a "Spend to Save" |
| S29 | **Rheoli Fflyd** - Canoli gwaith Rheoli Fflyd gyda photensial i arbed arian trwy ddefnyddio cerbydau LPG / gostwng nifer y cerbydau a gostwng costau hawliau teithio. | 0.02 | 0.03 | 0.02 | | | 0.07 | Dal y toriad yn erbyn Priffyrdd | | Cyllideb Cyfalaf |
| S39 | **Trefniadau Gweithio Hyblyg** - darparu cyfleon gweithio hyblyg i staff weithio rhan amser / ymddeol yn hyblyg / prynu gwyliau ychwanegol / seibiant gyrfa heb dâl neu gynlluniau sabothol. | 0.05 | 0.03 | | | | 0.08 | Dal y toriad yn ganolog | | Posibilrwydd o gostau pensiwn - cyfrif efo S40 |
| S40 | **Adolygiadau Trefniadaeth a Rheoli** - Mae'r adolygiad wedi nodi amrediad o gyfleon i ostwng costau Staffio a Rheoli er mwyn lleihau costau a sicrhau y cyfyngir i'r eithaf yr effaith ar wasanaethau rheng flaen. | 0.80 | 0.10 | | | | 0.90 | Dyrannu'r arbediad i lefel Cyfarwyddiaeth new Wasanaeth | Llithro? | £1m Costau Diswyddo (hyd at £2m/£2.5m o gynnwys holl gostau RhBFf ac ysgolion) £100k costau cyngor HR a chyfreithiol £20k hyfforddiant |
| S41 | **Telerau ac Amodau Teithio Staff** - Cynllun arfaethedig newydd i ad-dalu ar y lefel is i staff sy'n mynd ar hyffordiant , talu'r 5 milltir cyntaf ar gyfer staff gofal, cael gwared ar bob lwmp swm a thalu costau teithio sy'n weddill ar gyfradd 40c. | 0.28 | 0.07 | | | | 0.35 | Ceisio dyrannu'r arbediad | Llithro? | Posibilrwydd o gostau i hwyluso cytundeb |
| S42 | **Ffyrdd Newydd o Weithio** - Defnyddio'r portffolio o adeiladau yn fwy effeithiol gyda bwriad i gyflwyno TG modern a Systemau Rheoli Modern i wneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael ar gyfer staff. | | tbc | tbc | tbc | tbc | 0.00 | n/a | | Costau sylweddol "Spend to Save" a PIG |
| S12 | **Gostyngiadau yng Nghyllideb Refeniw'r Gwasanaeth Hamdden** - rhesymoli, ailfodelu a chyfuno gwasanaethau hamdden o fewn gwasanaeth cyfredol er mwyn gostwng y gyllideb refeniw. | 0.22 | 0.09 | | | | 0.30 | Dyrannu'r arbediad | Llithro? | |

APPENDIX 2

**RHAGLEN BLAENORIAETHAU FFORDDIADWY A PHROSIECTAU ARBEDION ERAILL: Asesiad ar gyfer Bwrdd 17/2/2011 a Pwyllgor Gwaith 23/2/2011**

Tabl 3

| | **Enw'r Prosiect** | **11/12** | **12/13** | **13/14** | **14/15** | **15/16** | | **Arbediad Blynyddol Cronnol** | **Triniaeth y gyllideb** | **Newidiadau ers yr ymgynghori** | **Costau/ Cyllido** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S44 | **Parcio i Staff a Chynghorwyr -** staff a Chynghorwyr yn talu am barcio trwy docyn blynyddol ond gyda'r opsiwn o dalu'n ddyddiol. | 0.03 | 0.01 | | | | | 0.04 | Dyrannu'r arbediad | Grwp T & G a Pwyllgor Gwaith, oedi blwyddyn ar y cynnig ynglyn a staff | |
| S43 | **Priffyrdd - Amrywiol -** cyflwyno dulliau mwy effeithiol o weithio fel ymarferion caffael ar y cyd / cynyddu incwm parcio / newid dulliau torri gwair a pholisi diwygiedig ar gyfer gwaith cynnal dros y gaeaf. | 0.06 | 0.04 | | | | | 0.10 | Dyrannu'r arbediad | | Costau o "Spend to Save" |
| S45 | **Disgownt i Bobl Sengl** - nodi a chadarnhau hawliadau annilys am ddisgownt gan arwain at arbedion a gostwng hawliadau anghywir. | 0.15 | -0.11 | | | | | 0.05 | Arbediad "o dan y linell" | | Cost refeniw unwaith ac am byth c£20k |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Is-gyfanswm Effeithlonrwydd** | **1.91** | **0.42** | **0.34** | **0.02** | **0.02** | | **2.72** | | | |
| | **Gweithio Mewn Partneriaeth** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | | **£m** | | | |
| S5 | **Teleofal -** darparu gwasanaeth monitro strategol a rennir trwy un gwasanaeth gyda rheolydd llinell yn y rhanbarth. | | | | | 0.05 | | 0.05 | n/a | | Cyllido ar lefel rhanbarthol yn hytrach na lleol |
| S11 | **Cydweithio yn y maes Addysg -** sefydlu gwasanaeth rhanbarthol yng ngogledd Cymru i gefnogi ysgolion ac Awdurdodau Lleol i wella ysgolion a chodi safonau. | | | 0.05 | 0.10 | | | 0.15 | n/a | | Cost sydd wedi ei gyflwyno yn cynnwys costau lleol a rhanbarthol - gellid cyllido o gyllideb cydweithio |
| S19 | **Cydweithio yn y maes Camerâu Goruchwylio** - Dull partneriaeth gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru i adnewyddu'r isadeiledd Camerâu Goruchwylio. | | 0.06 | | | | | 0.06 | n/a | Oedi? | Ddim yn glir - gellid cyllido o gyllideb cydweithio petai os daw achos busnes. |
| S6 | **Darparu Gofal Cartref** - Asesu opsiynau ynghylch darparu gwasanaethau gofal cartref yn y dyfodol ledled yr Ynys. | 0.11 | 0.02 | 0.02 | | | | 0.15 | | | |
| S31 | **Trafnidiaeth** - effeithlonrwydd a chymhwyster - Archwilio ac asesu'r defnydd o dacsis, bysus a chostau trafnidiaeth ledled yr Awdurdod gyda golwg ar ystyried lefel a darpariaeth gwasanaeth dewisol y codir amdano. | 0.05 | 0.10 | | | | | 0.15 | | | Posibilrwydd costau £70k? yn erbyn "Spend to Save" neu gyllidebau cyfredol |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Is-gyfanswm Partneriaethau** | **0.16** | **0.18** | **0.07** | **0.10** | **0.05** | | **0.56** | | | |
| | **Canolbwyntio ar Beth sydd Raid** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | | **£m** | | | |
| S22 | **Adolygu Syniadau a Chyfleusterau y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu Rheoli** - Adolygu'r rhesymeg ar gyfer darparu amrediad o weithgareddau twristiaeth a mwynderau uniongyrchol, gan gynnwys safleoedd treftadaeth, hamdden, cefn gwlad a gwasanaethau arforol. | 0.02 | | | | | | 0.02 | Dyrannu'r arbediad | | |
| S23 | **Gwasanaeth Bws** - Gostwng y cymhorthdal i wasanaethau bws Môn. | | | | | | | 0.00 | n/a | | |
| S25 | **Rheoli Asedau -** dull dwy ran o adolygu opsiynau ar gyfer cael gwared ar eiddo / stadau masnachol a diwydiannol ac ailstrwythuro radical o'r sylfaen asedau. | 0.03 | 0.03 | 0.03 | 0.05 | 0.08 | | 0.20 | Dal yr arbediad yn erbyn Eiddo | | Costau refeniw dan drafodaeth Rhai costau yn erbyn y derbyniad cyfalaf |
| S46 | **Atyniadau i Ymwelwyr yn y Tymor Hir** - bydd yr adolygiad uchod yn ysgogi cynllun rheoli atyniadau rhyngadrannol ar gyfer Ynys Môn. | | tbc | tbc | tbc | | | 0.00 | n/a | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Is-gyfanswm** | **0.05** | **0.03** | **0.03** | **0.05** | **0.08** | | **0.22** | | | |

APPENDIX 2

**RHAGLEN BLAENORIAETHAU FFORDDIADWY A PHROSIECTAU ARBEDION ERAILL: Asesiad ar gyfer Bwrdd 17/2/2011 a Pwyllgor Gwaith 23/2/2011**

Tabl 3

| | **Enw'r Prosiect** | **11/12** | **12/13** | **13/14** | **14/15** | **15/16** | | **Arbediad Blynyddol Cronnol** | **Triniaeth y gyllideb** | **Newidiadau ers yr ymgynghori** | **Costau/ Cyllido** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Moderneiddio Gwasanaethau | £m | £m | £m | £m | £m | | £m | | | |
| S8 | **Gofal Dydd i Bobl Hyn** - adolygiad o'r ddarpariaeth gofal dydd i bobl hyn er mwyn ailfodelu'r modd y caiff ei ddarparu a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. | 0.03 | 0.02 | 0.02 | | | | 0.07 | Dyrannu'r arbediad | | |
| S13/35 | **Rhesymoli Ysgolion gan gynnwys ysgolion uwchradd** | 0.27 | 0.13 | 0.10 | tbc | tbc | | 0.50 | Toriad i'r cwantwm | | Cyfalaf o bosibl |
| S15 | **Rhesymoli'r Gwasanaeth Llyfrgell -** adolygu'r gwasanaeth er mwyn gwireddu targedau ariannol. | 0.04 | 0.01 | 0.04 | | | | 0.09 | Dyrannu'r arbediad | | |
| S9 | **Ailfodelu Anableddau Dysgu -** Adolygu trefniadau comisiynu i nodi modelau ar gyfer darparu gwasanaeth. | 0.10 | 0.10 | 0.10 | | | | 0.30 | Dyrannu'r arbediad | | |
| S10 | **Meini Prawf Cymhwyster -** Prosiect i dynhau'r meini prawf cymhwyster ar gyfer gofal cymdeithasol gydag ailfodelu sylweddol o becynnau gofal unigol i ostwng costau gwasanaeth. | 0.59 | 0.25 | 0.25 | | | | 1.09 | Dyrannu'r arbediad | | |
| S30 | **Toiledau Cymunedol** - Astudiaeth fanwl o'r ddarpariaeth o doiledau gan arwain at adolygiad llawn i sefydlu'r angen a darpariaeth amgen bosib. | | 0.03 | | | | | 0.03 | n/a | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Is-gyfanswm Moderneiddio** | **1.03** | **0.54** | **0.51** | **0.00** | **0.00** | | **2.07** | | | |
| | Lleihau'r Gwasanaethau | £m | £m | £m | £m | £m | | £m | | | |
| S27 | **Gwarchod y Cyhoedd** - Adolygu'r ddarpariaeth statudol o wasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a sefydlu'r adnoddau sydd raid wrthynt i ddarparu lefel o wasanaeth sy'n cwrdd â'r gofynion statudol isaf tra'n lleihau risg i'r eithaf. | | 0.14 | 0.14 | | 0.04 | | 0.31 | n/a | Angen edrych eto | |
| S4 | **Adolygu a mabwysiadu ffyrdd newydd o dalu** ledled y Cyngor tra'n hyrwyddo Debyd Uniongyrchol fel y dull y ffefrir gan y Cyngor. Dileu taliadau cyhoeddus yn Swyddfa'r Sir Llangefni a Swyddfa Ardal Caergybi. | 0.05 | 0.05 | | | | | 0.10 | Dal yr arbediad yn erbyn Cyllid | | Hyd at £100k "Spend to Save" |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Is-gyfanswm Gostwng** | **0.05** | **0.19** | **0.14** | **0.00** | **0.04** | | **0.41** | | | |

APPENDIX 2

**RHAGLEN BLAENORIAETHAU FFORDDIADWY A PHROSIECTAU ARBEDION ERAILL: Asesiad ar gyfer Bwrdd 17/2/2011 a Pwyllgor Gwaith 23/2/2011**

Tabl 3

| | **Enw'r Prosiect** | **11/12** | **12/13** | **13/14** | **14/15** | **15/16** | | **Arbediad Blynyddol Cronnol** | **Triniaeth y gyllideb** | **Newidiadau ers yr ymgynghori** | **Costau/ Cyllido** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiectau Newydd** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | | **£m** | | | |
| S34 | Adolygu Gofal Preswyl | | | | | | | | | | |
| S36 | Lleoliad Sir Allanol | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Is-gyfanswm Prosiectau Newydd** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | | **0.00** | | | |
| | **Prosiectau Posib i'r dyfodol** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | | **£m** | | | |
| | Ail-fodelu Llety Cysgodol | | | | | | | | | | |
| | Cydweithio gwely gwag | | | | | | | | | | |
| | Cyfuno Darparwyr Unedau | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Isgyfanswm Prosiectau Posib i'r Dyfodol** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | | **0.00** | | | |
| | **Cyd-weithio Gogledd Cymru i'r dyfodol** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | | **£m** | | | |
| | **Bwrdd Rhaglen Addysg -** rhaglen partneriaeth is-ranbarthol / cydweithredu. | | | 0.20 | 0.20 | | | 0.40 | | | Angen cyllideb cydweithio |
| | **Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol -** rhaglen partneriaeth is-ranbarthol / cydweithredu. | | | 0.09 | 0.10 | | | 0.19 | | | Angen cyllideb cydweithio |
| | **Bwrdd Rhaglen Amgylcheddol -** rhaglen partneriaeth is-ranbarthol / cydweithredu. | | | 0.13 | 0.14 | | | 0.27 | | | Angen cyllideb cydweithio |
| | **Bwrdd Rhaglen Cefnogaeth/Arall -** rhaglen partneriaeth is-ranbarthol / cydweithredu. | | | 0.03 | 0.03 | | | 0.06 | | | Angen cyllideb cydweithio |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Is-gyfanswm Cydweithredu yn y Dyfodol** | **0.00** | **0.00** | **0.45** | **0.47** | **0.00** | | **0.92** | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | |
| | | **3.20** | **1.35** | **1.53** | **0.64** | **0.18** | | **6.89** | **Miliwn** | | |

**ATODIAD 3**

## ADRODDIAD DRAFFT: CYLLIDEBU CYNHWYSOL

Roedd y Grŵp Llywio Adferiad wedi gofyn am adroddiad ar “gyllidebu cynhwysol”. Mae adroddiad drafft a baratowyd yn wreiddiol i’r pwrpas hwnnw wedi cael ei ddiwygio i gymryd i ystyriaeth y sylwadau a dderbyniwyd ond yn fwy penodol, i roddi sylw i faterion a achoswyd gan benodi’r Comisiynwyr.

Nid yw ymarferion yr awdurdod hwn o ran cyllidebu yn rhai sydd ddim yn newid o gwbl. Mewn gwirionedd, mae’n deg dweud bod pob rownd gyllidebol yn wahanol. Mae hyn yn adlewyrchiad o wahanol ddulliau a dyheadau aelodau ynghyd â gwahanol bwysau ac amserlenni a orfodir yn allanol. Mae nodweddion eraill wedi bod yn gyffredin dros nifer o flynyddoedd, yn adlewyrchu naill ai fframwaith cyfansoddiadol neu’r diwylliant sefydliadol. Bu galw i symleiddio proses gymhleth sydd, o bosib, wedi arwain at ei gwneud yn llai cynhwysol. Ar y llaw arall, mae dwyn mwy o bartïon i mewn yn gwneud y broses yn fwy cymhleth sy’n cymryd llawer iawn o amser.

Nid oes diffiniad i’r term cyllidebu cynhwysol ac nid wyf wedi medru dod o hyd i gyfeiriad ato mewn canllawiau ynghylch arferion da. Wedi chwilio am y term ar y rhyngrwyd, deuthum o hyd i ychydig o awdurdodau sy’n honni eu bod wedi gwneud hyn neu sy’n dweud eu bod yn bwriadu ei wneud ond mae’r hyn y maent yn ei ddisgrifio yn gwahaniaethu o un lle i’r llall yn arbennig felly o ran pwy y maent yn bwriadu eu “cynnwys”.

Ymddengys y dylid anelu proses o gyllidebu cynhwysol at dri grŵp o bobl:-

- Deilyddion cyllidebau o fewn y Cyngor;
- Cynghorwyr ym mhob grŵp gwleidyddol;
- Y cyhoedd a grwpiau cydranddeiliaid.

Wrth gwrs, byddai’n ddymunol cynnwys y tri grŵp mewn rhyw fodd yn y broses gyllidebol. Ymddengys bod y pwyslais yn yr awdurdod hwn, yng nghyd-destun yr Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol a’r Cynllun Adfer, ar yr ail grŵp.

## Y Broses Gyhoeddus a Llif Gwybodaeth

Dull dadlennol yw ystyried pa wybodaeth sydd ar gael i gydranddeiliaid i hwyluso eu cyfraniad i’r broses gyllidebol. Mae’r Fenter Cyllideb Agored yn anelu at wneud hyn yn fyd-eang fel modd o gymharu llywodraethau cenedlaethol ledled y byd. Maent yn rhestru 8 o ddogfennau cyllidebol allweddol a ddylai fod ar gael yn gyhoeddus ac er bod y rhain wedi eu dylunio ar gyfer llywodraethau cenedlaethol, gellir cymharu arferion yn Ynys Môn gyda’r disgwyliadau hyn fel a ganlyn:-

| **Disgwyliadau o ran Menter Cyllideb Agored** | **Ymarfer Ynys Môn** |
|---|---|
| Datganiad Rhag-gyllidebol<br>(rhagdybiaethau ddefnyddiwyd a dyraniadau eang ymysg sectorau) | Mae adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y rhagolygon cyllidebol, fel arfer ym mis Hydref, yn amlinellu'r rhagolygon yn gyffredinol ac yn mofyn penderfyniadau yn seiliedig ar ragdybiaethau i arwain y broses gyllidebol. Ceir cofnod o'r penderfyniadau yng nghofnodion y Pwyllgor Gwaith – dim datganiad fel y cyfryw gan y Pwyllgor Gwaith. |
| Cynigion Cyllidebol y Pwyllgor Gwaith | Yn unol â'r gofyniad yn y Rheolau Gweithdrefn Cyllidebol, mae'r Pwyllgor Gwaith yn cyflwyno ei gynigion cychwynnol ym mis Ionawr. Fel arfer, mae'r rhain yn destun ymgynghori gyda'r cyhoedd a chyda Phwyllgorau Sgriwtini. Yn dilyn hyn, bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynhyrchu cynigion terfynol ym mis Chwefror i'w cyflwyno i'r Cyngor ym mis Mawrth. |
| Y Gyllideb a Fabwysiadwyd<br>(dogfen gyfreithiol sy'n awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i wario) | Caiff y gyllideb gyfreithiol ffurfiol ei chynnwys ym mhenderfyniad y Cyngor ynglŷn â'r gyllideb. Yna, adroddir ar hyn a chaiff ei gyhoeddi fel:-<br><br>• Taflen ar gyfer y sawl sy'n talu'r Dreth Gyngor a gylchredir gyda biliau;<br>• 'Llyfr cyllideb' sydd ar gael yn bennaf o fewn yr awdurdod;<br>• Manylion i LICC a chyrff eraill a ddefnyddir i bwrpas cymharu ystadegau. |
| Adroddiadau yn ystod y flwyddyn<br>(misol neu chwarterol) | Cyflwynir adroddiadau monitro chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith ar y gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf ac ar weithgareddau Rheoli Trysorlys. Ar hyn o bryd, anelir at adrodd bob mis. |

| | |
|---|---|
| Adolygiad Canol y Flwyddyn (yn adolygu ac yn trafod newidiadau i'r rhagamcanion) | Mae'r ail adroddiad chwarterol yn cyflawni swyddogaeth adolygiad hanner blwyddyn er, yn aml, dibynnir ar adroddiad y trydydd chwarter i gadarnhau rhagamcanion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol. |
| Adroddiad Diwedd Blwyddyn | Fel arfer, caiff adroddiad ar ganlyniadau'r flwyddyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin gan adrodd ar ganlyniadau yn erbyn y gyllideb o ran cyfrifo rheolaeth.<br><br>Yn y datganiad cyfrifon, ceir adroddiad ar yr un canlyniadau yn nhermau cyfrifo ariannol. Mae modd cymharu hwn yn well gydag awdurdodau eraill ond mae'n llai dealladwy mewn termau mewnol. |
| Adroddiad Archwilio | Cynhyrchir gan yr archwiliwr allanol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. |
| Cyllideb Dinasyddion (fersiwn boblogaidd o'r wybodaeth sydd ddim yn dechnegol) | Cyfarfyddir â hyn yn rhannol drwy ddarparu llyfryn ar gyfer y rheini sy'n talu'r Dreth Gyngor a chynnwys crynodeb o wybodaeth yn y cynlluniau corfforaethol. |

Mae'r cyfan o'r wybodaeth uchod ar gael yn gyhoeddus. Awgryma hyn nad oes unrhyw ddiffyg sylfaenol o ran gwybodaeth - er, gydag adnoddau, mae'n sicr y gellid gwella pethau o ran safon neu amseriad.

Mae'r wyth dogfen yn ein hatgoffa bod y broses gyllidebol yn gylch parhaus gyda gwahanol gyfnodau ar wahanol adegau o'r flwyddyn ond nid yn broses sengl. Ym Môn, tueddwyd i ganolbwyntio ar y broses o roi cyllideb flynyddol at ei gilydd, un a amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefn Fframwaith Cyllidebol a Pholisi yn y cyfansoddiad.

**<u>Gofynion Cyfansoddiadol gyda Threfniadau Gweithredol</u>**

Pan oedd cyfansoddiadau'r awdurdodau lleol cyfredol (trefniadau gweithredol) yn cael eu datblygu yn 2002, roedd canllawiau cenedlaethol ar y pryd yn caniatáu ar gyfer dau fodel o ran datblygu cynigion cyllidebol - i'r gyllideb gael ei chynnig gan y Pwyllgor Gwaith neu gan y Pwyllgorau Sgriwtini. Yr un modd ag awdurdodau eraill, dewisodd yr awdurdod hwn y model cyntaf fel yr un mwyaf ymarferol. Yn y diweddariad i'r canllawiau yn 2006, cyfeiriwyd at y model hwn yn unig lle mae'n amlwg yn gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Gwaith i gynnig y gyllideb i'r Cyngor. Dywedant hefyd:-

*"In developing the budget and formulating policy, the executive will be responsible for any consultation, which is required or necessary. The executive should, at an early stage in the development of the budget and policies, consult the relevant overview and scrutiny committees."*

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Cyllidebol yng Nghyfansoddiad Ynys Môn yn adlewyrchu'r gofynion hyn mewn modd gweddol benodol. Yn unol â nhw, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gwblhau cynigion cychwynnol (sy'n cyd-fynd â disgwyliadau'r Fenter Cyllideb Agored) gyda chynnwys penodol, chwe wythnos cyn dyddiad y cyfarfod o'r Cyngor (4.3.2.2.1 o'r Cyfansoddiad). Rhaid ymgynghori'n fewnol h.y. gyda'r Pwyllgorau Sgriwtini a Throsolwg ond, yn ymarferol, ymgynghorir gyda'r Fforwm Ysgolion, cydranddeiliaid eraill a'r cyhoedd yn unol â'r un amserlen. Yn dilyn yr ymgynghori, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gwblhau cynigion terfynol i'r Cyngor o leiaf wythnos cyn y cyfarfod o'r Cyngor (4.3.2.2.4 o'r Cyfansoddiad).

Mae gofynion rheolau gweithdrefn cyllidebol awdurdodau eraill yn llai llym. Oherwydd hyn, Ynys Môn yn aml yw un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi'r ffigyrau cyllidebol er fel arfer, mae'n un o awdurdod diwethaf i gyhoeddi ffigwr derfynol ar gyfer y Dreth Gyngor. Ar yr wyneb, mae hon yn broses fwy agored a chynhwysol.

## Y Broses yn Ymarferol ym Môn

Yn y blynyddoedd diwethaf, gwnaed cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith yn bennaf y tu ôl i 'ddrysau caeedig' - h.y. mewn trafodaethau rhwng y swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar gyfarfodydd dwy ochrog rhwng yr Aelod Portffolio Cyllid ac aelod portffolio pob gwasanaeth yn ei dro, y cyfan wedi ei gefnogi gan swyddogion, i nodi'r materion - meysydd y mae anghytundeb yn eu cylch, pwysau ar y gyllideb, cyfleoedd i arbed ac ati yn y gwasanaeth hwnnw. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd dwy ochrog o'r fath, nodir y materion ac fel arfer bydd y pecyn cyllidebol yn cael ei siapio mewn trafodaethau yn y Grŵp Arweinyddiaeth Strategol a chyfarfodydd anffurfiol o'r Pwyllgor Gwaith. Yna, cânt eu dwyn gerbron y Pwyllgor Gwaith i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

Nid yw'r broses hon yn arbennig o gynhwysol o aelodau - yn wir, gall hyd yn oed rhai o'r aelodau Pwyllgor Gwaith deimlo eu bod yn cael eu gadael allan. Gall swyddogion sy'n gwario'r cyllidebau hyn hefyd deimlo eu bod yn cael eu gadael allan pan fo presenoldeb yn y cyfarfodydd wedi ei gyfyngu o angenrheidrwydd i nifer fechan o uwch swyddogion. Mae'r broses wedi esblygu dros gyfnod o flynyddoedd fel cyfaddawd rhwng proses fwy cynhwysol ac agored a oedd fe deimlwyd, yn cymryd gormod o amser ac yn rhoddi gormod o faich ar aelodau a swyddogion, a'r dull amgen, sef proses a oedd yn cael ei harwain fwy gan swyddogion.

Pur anaml y mae pwyllgorau trosolwg a sgriwtini wedi gwneud sylwadau o sylwedd ar y cynigion cyllidebol, fel arfer, yn cyfyngu eu hunain i un neu ddau o faterion llai a ffigwr y Dreth Gyngor. Pur anaml mae Pwyllgorau Sgriwtini yn lobïo am gyfran eu gwasanaethau nhw o'r gacen. Ychydig o wahaniaeth mae aelodau mewn pwyllgorau sgriwtini wedi ei wneud mewn gwirionedd i'r gyllideb. Hyd yn oed yn 2011 gyda mwy o gefnogaeth ar gyfer sgriwtini a chwestiynu mwy egnïol, roedd yr argymhellion a ddaeth yn ôl yn ymwneud mwy â'r broses na sylwedd y gyllideb.

Yn ogystal, mae rôl ar gyfer gwrthbleidiau. Eto, mae'r Rheolau Gweithdrefn Cyllidebol (4.3.2.2.6 o'r Cyfansoddiad) yn caniatáu i unrhyw bwyllgor, neu unrhyw bum aelod cynnig cyllidebau amgen trwy gyflwyno gwelliant yn y Cyngor llawn. Chafodd hyn erioed moi ddefnyddio gan "unrhyw bwyllgor" ond mae wedi cael ei ddefnyddio gan yr wrthblaid fel modd o wrthwynebu cyllideb y Pwyllgor Gwaith. Mae'n rhan o'r disgwyliadau proffesiynol sydd ar y Prif Swyddog Cyllid i friffio a chefnogi'r wrthblaid yn hyn o beth er mwyn hwyluso cyllidebu cadarn ac, yn ymarferol, gwnaed hynny.

Mae'r ffaith y bu tueddiad at bolareiddio rhwng y Pwyllgor Gwaith/gwrthbleidiau mewn perthynas â'r gyllideb wedi cyfrannu at lai o rôl i sgriwtini - am nad yw cefnogwyr y naill ochr neu'r llall yn dymuno datgan eu safiad cyn cael dadl ar y gyllideb yn y Cyngor llawn.

Awgrymi ddadansoddiadau o'r gyllideb dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf nad yw sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini na chynnig gwelliannau yn y Cyngor wedi gwneud newidiadau <u>sylweddol</u> i'r gyllideb. Mae'r gyllideb a fabwysiedir gan y Cyngor yn y pen draw yn debyg i gynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith. Y ddau wahaniaeth mwyaf dylanwadol fu, yn y lle cyntaf, diweddaru clandriadau'r gyllideb yn wyneb gwybodaeth a gafwyd yn ddiweddarach (h.y. dim byd i'w wneud â'r broses wleidyddol) ac, yn yr ail le, lobïo gan ysgolion.

Mae'n bosibl bod y Rheolau Gweithdrefn Cyllidebol, oherwydd eu bod yn rhy benodol ynghylch manylion cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith, wedi llesteirio trafodaeth. Mae'r cynigion cychwynnol i fod yn benodol o ran y ffigwr a argymhellir ar gyfer y Dreth Gyngor a chyda dadansoddiad fesul gwasanaeth o'r gyllideb. Golyga hyn nad oes modd eu rhoi at ei gilydd hyd oni fydd rhai clandriadau cyllidebol wedi eu cwblhau a bod setliad LlCC i Lywodraeth Leol yn hysbys - gwneir hyn felly ar frys ym mis Ionawr. Gall y ffaith y rhoddir ffigyrau penodol danseilio ymgynghori os yw'r sawl yr ymgynghorir â nhw yn meddwl bod penderfyniadau eisoes wedi eu gwneud ac o'r herwydd nad oes werth iddynt ymateb.

Bwriad sefydlu'r Bwrdd Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn 2010 oedd ehangu trafodaeth ar y gyllideb ymysg aelodau etholedig a rhannu dealltwriaeth a pherchenogaeth o'r rhaglen arbedion heriol dros gyfnod o flynyddoedd. Mewn awdurdod sydd ddim yn cael ei hollti gan wahaniaethau o ran egwyddorion gwleidyddol, mae dealltwriaeth yn gyffredinol o flaenoriaethau gwario ar draws y grwpiau gwleidyddol. Gyda'r rhagolygon o orfod gweithredu rhaglen doriadau dros nifer o flynyddoedd, gydag etholiadau yn y canol, mae'n beth dymunol sicrhau bod yr holl aelodau wedi bod yn rhan o'r drafodaeth ar y gyllideb ymhell cyn i'r gyllideb ffurfiol ddod gerbron y Cyngor i'w mabwysiadu.

Datblygwyd hyn gan y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor ar gyllideb 2011-12, a roddodd rôl i'r Bwrdd Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy fel corff yr ymgynghorir ag ef ar benderfyniadau gwario i arbed ac ar newid targedau arbedion Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Tynnodd hyn rhywfaint o'r grym ffurfiol dros y gyllideb oddi wrth y Pwyllgor Gwaith (a chyn gwybod am benodi'r comisiynwyr).

**Newidiadau Posibl**

Mae'r adolygiadau cyfredol o'r Cyfansoddiad yn gyfle i adolygu'r Rheolau Gweithdrefn Cyllidebol. Un opsiwn fyddai gwneud cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith yn llai penodol o ran eu cynnwys. Petaent yn fwy annelwig, byddai modd gwneud cynigion yn gynt a chaniatáu rhagor o ddadl ar eu cynnwys.

Yn nherminoleg y Fenter Cyllideb Agored, gallai hyn symud ffocws y ddadl o gynigion y Pwyllgor Gwaith i'r Datganiad Rhag-gyllidebol. O ganlyniad, byddai angen i'r Pwyllgor Gwaith fabwysiadu ym mis Medi/Hydref bob blwyddyn set o dybiaethau a chynigion i arwain y broses gyllidebol. Byddai'r rhain yn weddol annelwig o ran eu natur oherwydd ni fyddai setliadau LlCC ar gael a byddai ansicrwydd ynghylch nifer o linellau cyllidebol - ond gellid gosod allan lefel ddisgwyliedig yr arbedion ac/neu'r blaenoriaethau rhwng gwasanaethau. Byddai mewn gwirionedd, yn pennu targedau ar gyfer bob gwasanaeth a byddai'n rhaid i wasanaethau yn eu tro ymateb iddynt. Byddid yn gwneud hynny drwy gael Pwyllgorau Sgriwtini i gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am y cyllidebau o fewn eu meysydd gwasanaeth a chael gwybodaeth gan y sawl sy'n dal cyllidebau yn y maes hwnnw - h.y. swyddogion gwasanaeth yn hytrach na swyddogion cyllid. Byddai'n gyfle i bob gwasanaeth nodi ei gynigion ar gyfer y rownd gyllidebol. Byddai'n fwy agored i gydranddeiliaid allanol ar sylwi a chymryd rhan.

Mae proses o'r fath yn debycach i brosesau cyllidebol awdurdodau lleol cyn cyflwyno trefniadau gweithredol. Byddai'n fwy cynhwysol ond yn fwy beichus hefyd ac mae'n bosib y byddai'n gostwng perchenogaeth y Pwyllgor Gwaith o'r cynigion cyllidebol a'i gyfrifoldeb amdanynt. Byddai'n tueddu i ddod ag unrhyw wrthdaro allan ynglŷn â'r gyllideb ac os yw'n gyfle i ddatrys y gwrthdaro, yna mae'n beth da.

Mewn amser, gellid integreiddio'r broses hon yn well gyda chynllunio busnes. Gallai'r tybiaethau yn y datganiad rhag-gyllidebol fod ar ffurf herio pob gwasanaeth i ailddrafftio ei gynllun busnes gyda x% o gynnydd/gostyngiad incrementaidd yn y gyllideb.

Bydd proses gyllidebol fwy cynhwysol yn rhoi mwy o alw am adnoddau. Bydd angen mwy o fewnbwn gan yr holl aelodau a swyddogion gwasanaeth ynghyd â swyddogion cyllid. Bydd rhywfaint o'r ymdrech hwnnw'n ddiwerth - oherwydd bydd ychwaneg o opsiynau yn cael eu gwerthuso a ddim yn cael eu gweithredu, a gofynnid am fwy o wybodaeth fydd ddim yn cael ei defnyddio. Bydd yn cymryd mwy o amser.

Mae penodi Comisiynwyr yn hwb ychwanegol i newid. Yn wahanol i Bwyllgor Gwaith a dynnir o blith yr aelodau etholedig, nid oes gan y Comisiynwyr locws democrataidd i ddatblygu eu cynigion eu hunain. Yn y pen draw, rhaid i'r Cyngor fabwysiadu eu cynigion cyllidebol: ac i gynyddu'r tebygrwydd y caiff eu cynigion eu mabwysiadu, rhaid iddynt ymgysylltu hyd yn oed yn fwy gyda'r Cyngor cyfan wrth eu datblygu.

**CASGLIADAU**

- Mae gan Ynys Môn y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi cyllidebau cynhwysol;
- Mae Rheolau Gweithdrefn Cyllidebol yn darparu fframwaith caeth ar gyfer ymgynghori sy'n golygu bod rhaid ymgynghori gyda Phwyllgorau Sgriwtini ynghylch cynigion penodol;
- Gellid gwneud newidiadau cyfansoddiadol i ganolbwyntio trafodaethau ar Adroddiad Rhag-gyllidebol gan ddwyn pwyllgorau sgriwtini a swyddogion gwasanaeth i mewn. Byddai cylch newydd o drafodaethau yn Hydref/Tachwedd i gynorthwyo cynigion cyllideb y Pwyllgor Gwaith. Efallai y byddai'r gofynion ar gyfer cylch Ionawr/Chwefror yn llai caeth.

**DAVID ELIS-WILLIAMS**
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** **28 EBRILL 2011**

**4.3.2 Proses ar gyfer Datblygu'r Fframwaith Cyllidebol**

**4.3.2.1 Strategaeth Gyllidebol**

4.3.2.1.1 Gall y Pwyllgor Gwaith gynnig strategaeth gyllidebol i'r Cyngor a honno'n cynnwys cynlluniau ar gyfer cyllidebau refeniw a chyfalaf i ragor nag un flwyddyn ariannol.

4.3.2.1.2 Os ydyw'r Pwyllgor Gwaith yn penderfynu cynnig strategaeth gyllidebol, yna bydd yn cyhoeddi cynigion cychwynnol gan roddi sylw i -

(i) canlyniadau unrhyw arolwg ar y strategaeth gyllidebol gan y Pwyllgor Sgriwtini CorfforaetholPrif Bwyllgor Sgriwtini
(ii) unrhyw sylwadau a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith yng nghyswllt y strategaeth gyllidebol
(iii) unrhyw waith ymgynghori gyda chydranddeiliaid yn lleol yng nghyswllt y strategaeth gyllidebol

4.3.2.1.3 Trosglwyddir cynigion dechreuol y Pwyllgor Gwaith i'r Pwyllgor Sgriwtini CorfforaetholPrif Bwyllgor Sgriwtini am gyngor ac ystyriaeth bellach. Bydd y Prif Bwyllgor Sgriwtini yn gofyn am farn Pwyllgorau eraill a chydranddeiliaid lleol os ystyria fod hynny'n briodol, a chan fod yn ofalus i beidio dyblygu unrhyw ymgynghori a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd y Pwyllgor Sgriwtini CorfforaetholPrif Bwyllgor Sgriwtini yn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar ganlyniadau ei drafodaethau o fewn 8 wythnos i gyhoeddi cynigion dechreuol y Pwyllgor Gwaith.

4.3.2.1.4 Ar ôl ystyried adroddiad y Pwyllgor Sgriwtini CorfforaetholPrif Bwyllgor Sgriwtini , gall y Pwyllgor Gwaith, os ystyria fod hynny'n briodol, ddiwygio ei gynigion, cyn eu cyflwyno i gyfarfod y Cyngor i'w hystyried. Bydd hefyd yn adrodd i'r Cyngor ynghylch sut y mae wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Sgriwtini CorfforaetholPrif Bwyllgor Sgriwtini.

4.3.2.1.5 Bydd y Cyngor yn ystyried cynigion y Pwyllgor Gwaith a gall eu mabwysiadu, eu diwygio, eu cyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Gwaith i'w hystyried ymhellach, neu roi ei gynigion ei hun yn eu lle. Wrth ystyried y mater, bydd cynigion y Pwyllgor Gwaith o flaen y Cyngor ac unrhyw adroddiad gan unrhyw Bwyllgor perthnasol.

4.3.2.1.6 Rhoddir cyhoeddusrwydd i benderfyniad y Cyngor yn unol â'r darpariaethau yng Nghyfansoddiad y Cyngor a rhoddir copi i'r Arweinydd. Bydd y dyddiad yn cael ei roddi ar y rhybudd o'r penderfyniad ac yn y rhybudd nodir un ai bod y penderfyniad yn dod i rym yn syth (os ydyw'r Cyngor yn derbyn cynigion y Pwyllgor Gwaith heb ddiwygio dim arnynt) neu (oni fydd cynigion y Pwyllgor Gwaith yn cael eu derbyn heb eu diwygio) bod penderfyniad y Cyngor yn dod i rym 5 niwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r rhybudd o'r penderfyniad, onid yw'r Arweinydd yn ei wrthwynebu yn ystod y cyfnod hwnnw.

4.3.2.1.7 Os yw'r Arweinydd yn gwrthwynebu penderfyniad y Cyngor, bydd yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r Prif WeithredwrRheolwr-gyfarwyddwr i nodi hynny cyn y dyddiad y mae'r penderfyniad i fod i ddod i rym. Yn y rhybudd ysgrifenedig rhaid nodi'r rhesymau am y gwrthwynebiad. Pan dderbynnir rhybudd o'r fath, bydd y Prif WeithredwrRheolwr-gyfarwyddwr yn galw Cyfarfod pellach o'r Cyngor i ailystyried ei

**Formatted:** Font: Bold
**Formatted:** Left: 2.8 cm, Right: 2.7 cm, Top: 0.42 cm, Bottom: 0.43 cm
**Formatted:** Font: Bold
**Formatted:** Space After: 0 pt

benderfyniad ac ni fydd y penderfyniad yn dod i rym tan y Cyfarfod hwnnw.

4.3.2.1.8 Rhaid i Gyfarfod y Cyngor gael ei gynnal o fewn 14 o ddyddiau gwaith i dderbyn gwrthwynebiad ysgrifenedig yr Arweinydd. Yn y cyfarfod hwnnw o'r Cyngor, bydd penderfyniad y Cyngor yn cael ei ailystyried yng ngoleuni'r gwrthwynebiad, a fydd ar gael yn ysgrifenedig i'r Cyngor.

4.3.2.1.9 Bydd y Cyngor, yn y cyfarfod hwnnw, yn gwneud ei benderfyniad terfynol ynghylch y mater ar sail mwyafrif syml. Gwneir y penderfyniad yn gyhoeddus yn unol â'r ddarpariaeth yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac fe'i gweithredir ar unwaith.

4.3.2.1.10 Lle mae gan y Cyngor strategaeth gyllidebol yn barod a bod y Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r broses flynyddol o bennu cyllideb a amlinellir yn 4.3.2.2, yn cynnig adolygu neu ddiweddaru'r strategaeth honno, yna bydd y weithdrefn yn 4.3.2.2 yn cael ei defnyddio yn lle'r weithdrefn a amlinellir uchod.

**4.3.2.2 Cyllidebau Blynyddol**

4.3.2.2.1 Cyn 30 Medi mewn unrhyw flwyddyn, bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyhoeddi Datganiad Rhag-gyllidebol am y flwyddyn a fydd yn cychwyn ar yr 1 Ebrill dilynol. Bydd y Datganiad Rhag-gyllidebol yn cynnwys yr isod:

(i) amlinelliad o'r rhagolygon ariannol a'r rhagdybiaethau allweddol a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith i arwain y broses cynllunio ariannol;

(ii) os yw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol, a yw'r Pwyllgor Gwaith o'r farn y bydd angen diwygio'r strategaeth yn wyneb y rhagolygon ariannol neu gynigion y Pwyllgor Gwaith;

(iiii) canllawiau cyllidebol i'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth eu hystyried mewn perthynas â'u cyllidebau a'u cynlluniau busnes.

4.3.2.2.2 Cyn 30 Tachwedd mewn unrhyw flwyddyn, bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ystyried Datganiad Rhag-gyllidebol y Pwyllgor Gwaith o ran yr effaith a gaiff ar eu cylch gorchwyl penodol a chan ystyried cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth yr awdurdod a chynigion ar gyfer eu datblygu. Gallant gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith ynglŷn â'r cyllidebau hynny sy'n rhan o'u cylch gorchwyl. Yn ychwanegol at hyn, gall y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyflwyno sylwadau ar y gyllideb yn gyffredinol.

4.3.2.2.3 Yn ychwanegol at hyn, gall y Pwyllgor Gwaith ymgynghori gyda chydranddeiliaid mewn perthynas â'i Ddatganiad Rhag-gyllidebol gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ymgynghori ar gynlluniau corfforaethol.

4.3.2.2.4 Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymryd i ystyriaeth sylwadau a dderbyniwyd gan bwyllgorau sgriwtini a chanlyniadau ymgynghori cyn llunio ei Gynigion Cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb.

Formatted: Font: Bold

4.3.2.2.5~~1 O leiaf 6 wythnos cyn y dyddiad pryd y bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor~~ Cyn 15 Ionawr mewn unrhyw flwyddyn,, bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyhoeddi cynigion cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb ar gyfer y flwyddyn a fydd yn cychwyn ar yr 1 Ebrill dilynol.~~i'r gyllideb.~~ Bydd y cynigion cychwynnol mewn perthynas â'r gyllideb yn cynnwys y canlynol:

(i) os ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol, a ydyw'r gyllideb

flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio ai peidio gyda'r strategaeth honno a manylion unrhyw achos o wyro oddi wrthi neu gynigion i adolygu neu ddiweddaru'r strategaeth

(i) os ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol a ydyw'r gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio ai peidio gyda'r strategaeth honno a manylion unrhyw achos o wyro oddi wrthi

(ii); sut mae'r cynigion yn cysylltu â rhagdybiaethau'r Datganiad Rhag-gyllidebol a'r cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth a fabwysiadwyd gan yr awdurdod neu a fydd yn cael eu cynnig gan y Pwyllgor Gwaith;

Formatted: Left

(iii) manylion ynghylch sut y dylanwadwyd ar y cynigion gan unrhyw ymgynghori neu atborth gan y pwyllgorau sgriwtini.

(ii) Treth Gyngor arfaethedig y flwyddyn;
(iii) unrhyw fwriad i drosglwyddo i'r cronfeydd ariannol wrth gefn neu ohonynt;
(iv) crynodeb o'r gwariant arfaethedig fesul gwasanaeth;
(v) manylion am unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth yn sgil y gyllideb;
(vi) i ba raddau y mae'r cynigion yn rhoddi sylw i adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Prif Bwyllgor Sgriwtini neu unrhyw Bwyllgor Trosolwg;
(vii) manylion unrhyw waith ymgynghori a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yng nghyswllt y gyllideb arfaethedig;
(viii) manylion unrhyw ymgynghori y mae'r Pwyllgor Gwaith yn ei wneud neu a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt y gyllideb arfaethedig;
(ix) manylion unrhyw ddigwyddiadau (megis cyhoeddiad a ddisgwylir, neu ganlyniadau gwaith ymgynghori) a allai gael effaith ar gynigion y Pwyllgor Gwaith.

4.3.2.2.62 Bydd y Prif WeithredwrRheolwr-gyfarwyddwr yn gyrru cynigion cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb y Pwyllgor Gwaith at holl Aelodau'r Cyngor ac at unrhyw aelodau cyfetholedig o'r pwyllgorau Prif Bwyllgor sSgriwtini cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôlpen 3 diwrnod gwaith i'r Pwyllgor Gwaith eu cwblhau, ynghyd ag unrhyw gyngor y bydd y Prif Swyddog Cyllid yn dymuno ei roddi.

4.3.2.2.7 Bydd y Pwyllgor Gwaith yn sicrhau ei fod yn ymgynghori ar y cynigion cychwynnol mewn perthynas â'r Gyllideb i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol dan ofynion statudol ac os yw'n dymuno, gall ymgynghori'n ehangach.

4.3.2.2.8 O leiaf pythefnos cyn y dyddiad y bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor, bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ystyried Cynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r Gyllideb o ran yr effaith a gânt ar faterion sy'n rhan o'u cylch gorchwyl a chan ystyried cynlluniau corfforaethol, yr awdurdod, cynlluniau gwasanaeth a chynigion i'w datblygu. Gallant gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith ynglyn â'r cyllidebau ar gyfer materion sy'n rhan o'u cylch gorchwyl. Yn ychwanegol at hyn, gall y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyflwyno sylwadau ar y gyllideb yn gyffredinol.

4.3.2.2.3 Bydd gan y Prif Bwyllgor Sgriwtini 3 wythnos i ymateb i'r cynigion cychwynnol gan y Pwyllgor Gwaith, petai yn dymuno ymateb. Gall y Prif Bwyllgor Sgriwtini ganfasio sylwadau cydranddeiliaid lleol petai yn credu bod hynny'n briodol yng nghyd-destun y mater dan sylw, a chan roddi sylw arbennig i osgoi dyblygu unrhyw waith ymgynghori a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith. Bydd y Prif Bwyllgor Sgriwtini yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ar ganlyniadau ei drafodaethau.

4.3.2.2.94 Ar ôl ystyried adroddiadau'r Prif Bwyllgor Sgriwtini ac unrhyw adroddiadau

gan Bwyllgorau Trosolwg bydd y Pwyllgor Gwaith, petai'n credu bod hynny'n briodol, yn gallu diwygio ei gynigion cyn eu cyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor eu hystyried. O leiaf saith diwrnod gwaith wythnos cyn y dyddiad pryd y bydd cyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor bydd y Pwyllgor Gwaith, wedi ystyried ymatebion y pwyllgorau sgriwtini a chanlyniadau unrhyw ymgynghori yn cyhoeddi ei Ggynigion Tterfynol ar gyfer y Ggyllideb. Bydd y Ccynigion Tterfynol ar gyfer y Gyllideb yn cynnwys y canlynol :-

Formatted: Space After: 0 pt

(i) os ydyw'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth gyllidebol a ydyw'r gyllideb flynyddol arfaethedig yn cydymffurfio ai peidio gyda'r strategaeth honno a manylion unrhyw achos o wyro oddi wrthi neu gynigion i adolygu neu ddiweddaru'r strategaeth;
(ii) Treth Gyngor arfaethedig y flwyddyn;

(iii) unrhyw fwriad i drosglwyddo i'r cronfeydd ariannol wrth gefn neu ohonynt;
(iv) crynodeb o'r gwariant arfaethedig fesul gwasanaeth;

(v) manylion am unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth yn sgil y gyllideb;
(vi) i ba raddau y mae'r cynigion yn rhoddi sylw i adroddiadau'r Pwyllgorau;
(vii) i ba raddau y mae'r cynigion yn rhoddi sylw i fanylion unrhyw ymgynghori a wnaedwnaed;
(viii) manylion unrhyw newidiadau sylweddol arall rhwng y cynigion cychwynnol a'r rhai terfynol;.

(ix) cynnig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn;
(x) cynigion ar gyfer benthyca;

(xi) unrhyw faterion statudol eraill i'w penderfynu gan y Cyngor llawn.

4.3.2.2.510 Bydd y Prif WeithredwrRheolwr-gyfarwyddwr yn gyrru cynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar y gylideb at holl aAelodau'r Cyngor ac at unrhyw aelodau cyfetholedig o'r pwyllgorau sgriwtini cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl Prif Bwyllgor Sgriwtini cyn pen 2 ddiwrnod gwaith i'r Pwyllgor Gwaith eu cwblhau, ynghyd ag unrhyw gyngor y bydd y Prif Swyddog Cyllid yn dymuno ei roddi.

4.3.2.2.611 Os ydyw unrhyw Bwyllgor, neu unrhyw 5 Aelod o'r Cyngor, yn dymuno cynnig gwelliant i gynigion cyllidebol terfynol y Pwyllgor Gwaith, ar gyfer y gyllideb bydd raid iddynt gyflwyno rhybudd o'r gwelliant i'r Prif WeithredwrRheolwr-gyfarwyddwr o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y dyddiad pryd y bydd y gyllideb flynyddol yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor. Yn ogystal, gallant gyflwyno adroddiad.

4.3.2.2.712 Bydd y Cyngor yn ystyried cynigion y Pwyllgor Gwaith ac yn gallu eu mabwysiadu, mabwysiadu unrhyw welliant y rhoddwyd rhybudd ohono yn unol â 4.3.2.2.611 uchod, neu roddi ei gynigion ei hun yn lle y rhai gwreiddiol. Wrth ystyried y mater, bydd gan y Cyngor ger ei fron gynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ac unrhyw welliant ac unrhyw adroddiad a gyflwynwyd yn unol â 4.3.2.2.611 uchod, ynghyd agac unrhyw gyngor y bydd y Prif Swyddog Cyllid yn dymuno ei roddi.

4.3.2.2.813 Wrth gymeradwyo'r gyllideb bydd y Cyngor hefyd yn nodi i ba raddau y gall y Pwyllgor Gwaith drosglwyddo arian y tu mewn i'r gyllideb yn unol â Rheol

4.3.2.5 y Rheolau hyn (trosglwyddo). Y Cyngor ei hun fydd â'r hawl i gyflwyno unrhyw newidiadau eraill i'r gyllideb.

**4.3.2.3 Penderfyniadau y tu allan i'r gyllideb**

4.3.2.3.1 Yn amodol ar ddarpariaethau Rheol 4.3.2.5 ni all corff nac unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol wneud penderfyniadau oni bai eu bod yn unol â'r gyllideb. Ni fedrant ymrwymo gwariant nac ildio incwm uwchlaw trothwy'r pennawd neu'r is-bennawd priodol yn y gyllideb. Os dymuna unrhyw rai o'r cyrff neu'r bobl hyn wneud penderfyniad sy'n groes ~~i'r fframwaith polisi, neu s'yn groes~~ i neu sydd heb fod yn gwbl unol â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y C~~c~~yngor llawn, yna y Cyngor yn unig all wneud y penderfyniad hwnnw, yn amodol ar 4.3.2.4 isod.

4.3.2.3.2 Os ydyw corff neu unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol yn dymuno gwneud penderfyniad o'r fath, byddant yn cymryd cyngor y Prif Swyddog Cyllid ynghylch a fyddai'r penderfyniad y maent am ei wneud yn groes i'r gyllideb, neu heb fod yn gwbl unol â hi. Os ydyw'r Swyddog yn cynghori bod modd tynnu'r penderfyniad arfaethedig i mewn i'r gyllideb trwy drosglwyddiad priodol, yna bydd modd i'r corff neu'r unigolyn sy'n dymuno gwneud penderfyniad drosglwyddo'r penderfyniad arfaethedig i'r corff neu'r unigolyn sydd â'r gallu i benderfynu ar y trosglwyddiad, onid oes angen gwneud penderfyniad ar frys, a than amgylchiadau brys bydd darpariaeth Rheol 4.3.2.4 (penderfyniadau brys y tu allan i'r gyllideb) yn berthnasol. Os ydyw'r S~~s~~wyddog yn cynghori na fyddai'r penderfyniad yn unol â'r gyllideb bresennol ac na fyddai modd ei ddwyn i mewn i'r gyllideb drwy wneud trosglwyddiad perthnasol, yna rhaid i'r corff hwnnw neu'r person hwnnw drosglwyddo'r~~ir~~ penderfyniad i'r Cyngor fel y gall y Cyngor wneud penderfyniad oni bai ei fod yn fater brys a than amgylchiadau brys bydd darpariaeth Rheol 4.3.2.4 (penderfyniadau brys y tu allan i'r gyllideb) yn berthnasol.

**4.3.2.4 Penderfyniadau brys y tu allan i'r gyllideb**

4.3.2.4.1 Gall unrhyw gorff neu unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau gweithredol gymryd penderfyniad sy'n groes i neu heb fod yn gwbl unol â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn os yw'r penderfyniad yn fater brys. Fodd bynnag, dim ond o dan yr amodau canlynol y gellir gwneud y penderfyniad:

(i) os nad yw'n ymarferol galw cyfarfod â chworwm o'r Cyngor llawn neu, yn achos penderfyniad i drosglwyddo arian, gorff sy'n medru cymryd y penderfyniad hwnnw; a
(ii) os yw Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol~~Prif Bwyllgor Sgriwtini~~ yn cytuno bod y mater yn fater brys.

Rhaid nodi ar gofnod y penderfyniad y~~i'~~r rhesymau pam nad yw'n ymarferol galw cyfarfod â chworwm o'r Cyngor llawn, neu gorff a fedr wneud penderfyniad i drosglwyddo, a~~a~~ ch~~h~~aniatâd Cadeirydd y Prif Bwyllgor Sgriwtini~~Pwyllgor Sgriwtini~~ i'r penderfyniad gael ei wneud~~gymryd~~ fel mater o frys.~~ gael eu nodi ar gofnod y penderfyniad.~~ Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol~~Prif Bwyllgor Sgriwtini~~ bydd modd cael caniatâd Cadeirydd y Cyngor, ac os ydyw'r ddau yn absennol, caniatâd Is-gadeirydd y Cyngor yn lle caniatâd un ai Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol~~Prif Bwyllgor Sgriwtini~~ neu Gadeirydd y Cyngor.

4.3.2.4.2 Yn dilyn y penderfyniad, bydd y sawl sy'n cymryd y penderfyniad yn rhoi

adroddiad llawn i'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cyngor i egluro'r penderfyniad, y rhesymau drosto a pham y cafodd y penderfyniad ei drin fel mater brys.

**4.3.2.5 Trosglwyddo Arian**

4.3.2.5.1 Yn y gyllideb flynyddol y bydd y Cyngor yn ei mabwysiadu bydd penawdau i'r symiau a glustnodir i amcanion, i wasanaethau ac i brosiectau penodol. Hefyd gall y gyllideb flynyddol gynnwys penawdau o arian wrth gefn - rhai heb eu neilltuo i amcan, na gwasanaeth na phrosiect penodol. Yng nghyswllt y penawdau hyn –

(i) dirprwyir i'r Pwyllgor Gwaith bwer pen agored i wario pob pennawd o'r gyllideb flynyddol ar yr amcan, y gwasanaeth neu'r prosiect penodol;

(ii) gall y Pwyllgor Gwaith drosglwyddo o unrhyw bennawd cyllidebol i amcan, i wasanaeth neu i brosiect arall hyd at uchafswm ariannol a bennir bob blwyddyn gan y Cyngor, ac i'w ddefnyddio fel y swm uchaf bosib y bydd modd ei drosglwyddo o unrhyw bennawd cyllidebol unigol;

(iii) gall y Pwyllgor Gwaith drosglwyddo o bennawd arian wrth gefn i unrhyw amcan, gwasanaeth neu brosiect hyd at gyfanswm pennawd yr arian wrth gefn.;

(iv) gall y Pwyllgor Gwaith drosglwyddo o'r naill brosiect i'r llall yn y gyllideb gyfalaf flynyddol, gyda'r amod bod y trosglwyddiad yn cydymffurfio gydag unrhyw strategaeth gyllidebol a fabwysiedir gan y Cyngor;

(v) gall y Pwyllgor Gwaith ganiatáu gwariant newydd y tu mewn i'r gyllideb flynyddol os oes modd cwrdd â'r gwariant o ffynonellau incwm allanol, rhai newydd neu rai ychwanegol, a chyda'r amod nad yw hynny'n golygu yr un ymrwymiad arall.

4.3.2.5.2 Y tu mewn i bob pennawd cyllidebol a fabwysiedir gan y Cyngor, bydd y Prif Swyddog Cyllid, ar y cyd gyda Swyddogion Gwasanaeth a chan gydymffurfio gyda chyfarwyddiadau y Pwyllgor Gwaith, yn clustnodi'r gyllideb i is-benawdau sy'n nodi'r math o wariant neu'r math o incwm. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo'r rheolaeth dros yr is-benawdau hyn, gan gynnwys yr hawl i drosglwyddo rhwng y naill a'r llall, i Swyddogion.

4.3.2.5.3 Gall y Cyngor bennu uchafswm i'r ymrwymiad a gyllidir o gyllidebau blynyddoedd y dyfodol ac y gall y Pwyllgor Gwaith eu gwneud. Y tu mewn i'r uchafswm hwnnw, gall y Pwyllgor Gwaith wneud ymrwymiadau gyda'r amod bod y rheini yn cydymffurfio gydag unrhyw strategaeth gyllidebol y bydd y Cyngor wedi'i mabwysiadu.

4.3.2.5.4 Rhoddir gwybod am bob penderfyniad a wna'r Pwyllgor Gwaith, yr Aelodau Portffolio neu Swyddogion i drosglwyddo penawdau neu is-benawdau cyllidebol, neu i wneud ymrwymiadau a gyllidir o gyllidebau blynyddoedd y dyfodol i'r Prif Swyddog Cyllid ar ffurf y bydd y Prif Swyddog Cyllid yn ei phennu. Petai'r Prif Swyddog Cyllid

o'r farn bod unrhyw drosglwyddiad, o'i wneud –

(i) ddim yn cydymffurfio gydag unrhyw strategaeth gyllidebol y mae'r Cyngor wedi'i mabwysiadu; ~~N~~neu

(ii) ddim yn cydymffurfio gyda'r gyllideb flynyddol y mae'r Cyngor wedi'i phennu; neu
(iii) yn tynnu'n groes i unrhyw uchafsymiau trosglwyddo y mae'r Cyngor wedi'u pennu; neu

(iv) ddim yn rhoddi gwerth am arian; neu

(v) yn golygu gwneud ymrwymiad sydd y tu draw i'r adnoddau sydd ar gael; neu

(vi) yn gallu arwain at wariant anghyfreithlon neu wneud eitem anghyfreithlon yn y cyfrifon;

yna bydd yn dweud am hynny wrth y Pwyllgor Gwaith, gan nodi'r rhesymau, ac ni weithredir ar y trosglwyddiad arfaethedig hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried yr adroddiad.

4.3.2.5.5 Gall y gyllideb flynyddol y bydd y Cyngor yn ei mabwysiadu gynnwys penawdau i gyllidebau i'w gwario yn ôl disgresiwn pob Pwyllgor Sgriwtini~~neu Trosolwg~~, Pwyllgor Rheolaethol neu Gyd-Bwyllgor i bwrpas cefnogi a chynnal ei swyddogaethau.

**4.3.2.6 Galw i mewn - penderfyniadau y tu allan i'r gyllideb**

4.3.2.6.1 Pan fo'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol~~Prif Bwyllgor Sgriwtini~~ o'r farn fod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith~~gweithredol~~ yn, neu pe bai'n cael ei wneud y byddai yn groes i neu heb fod yn gwbl unol â chyllideb y Cyngor, yna bydd yn cael ei drosglwyddo i'r Prif Swyddog Cyllid.

4.3.2.6.2 Mewn perthynas â swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith, bydd adroddiad y Prif Swyddog Cyllid yn mynd i'r Pwyllgor Gwaith gyda chopi i bob Aelod o'r Cyngor. P'run a yw'r penderfyniad yn cael ei ddirprwyo ai peidio, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyfarfod i benderfynu pa gamau i'w cymryd mewn perthynas ag adroddiad y Prif Swyddog Cyllid a pharatoi adroddiad i'r Cyngor pe bai'r Prif Swyddog Cyllid yn dod i'r casgliad fod y penderfyniad yn wyriad, ac i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol~~Prif Bwyllgor Sgriwtini~~ os yw'r Prif Swyddog Cyllid yn dod i'r casgliad nad oedd y penderfyniad yn wyriad.

4.3.2.6.3 Os nad yw'r penderfyniad wedi ei wneud eto, neu os yw wedi ei wneud ond heb ei weithredu eto, ac mai casgliad y Prif Swyddog Cyllid yw fod y penderfyniad yn neu y byddai'n groes neu heb fod yn gwbl unol â'r gyllideb, gall y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol~~Prif Bwyllgor Sgriwtini~~ gyfeirio'r mater at y Cyngor. Mewn achosion o'r fath, ni chymerir unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r penderfyniad ac ni weithredir arno hyd oni fydd y Cyngor wedi cyfarfod ac ystyried y mater. Bydd y Cyngor yn cyfarfod cyn pen 7 diwrnod i dderbyn y cais gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol~~Prif Bwyllgor Sgriwtini~~. Yn y cyfarfod bydd yn derbyn adroddiad am y penderfyniad neu'r cynigion a chyngor y Prif Swyddog Cyllid. Gall y Cyngor naill ai:

(i) gefnogi penderfyniad neu gynnig yr Aelod o'r Pwyllgor Gwaith sy'n gwneud penderfyniad fel un sy'n syrthio o fewn y gyllideb bresennol. Yn felly nid oes angen unrhyw weithredu pellach, ac eithrio bod penderfyniad y Cyngor yn cael ei gofnodi a'i ddosbarthu i'r holl Gynghorwyr yn y dull arferol;

neu

(ii) ddiwygio cyllideb y Cyngor i gynnwys penderfyniad neu gynnig y corff neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am y swyddogaeth weithredol honno a chytuno i'r penderfyniad ddod i rym ar unwaith. Os felly nid oes angen unrhyw weithredu pellach, ac eithrio bod penderfyniad y Cyngor yn cael ei gofnodi a'i ddosbarthu i'r holl gynghorwyr yn y dull arferol;

neu

(iii) lle bo'r Cyngor yn derbyn bod y penderfyniad neu'r cynnig yn groes i'r gyllideb neu heb fod yn gwbl unol â hi, ac nad yw'n diwygio'r fframwaith presennol i'w derbyn, yna gall y Cyngor fynnu bod y Pwyllgor Gwaith yn ailystyried y mater yn unol â chyngor y Prif Swyddog Cyllid.



Formatted: Font: 6 pt, Bold,

Formatted: Font: 6 pt, Bold

Formatted: Font: 6 pt, Bold